NewsLine
Rhag 2018 Rhifyn 143
CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
www.caerffili.gov.uk

# Ymunwch â Thrafodaeth Caerffili

**Mae trigolion ar draws y fwrdeistref sirol yn cael eu hannog i ddweud eu dweud ar gynigion arbedion sy'n dod i gyfanswm o £15.6 miliwn ar gyfer y flwyddyn nesaf (2019/20).**

Mae'r cyngor eisoes wedi cyflawni arbedion sydd wedi dod i gyfanswm o **£89miliwn** dros y 10 mlynedd ddiwethaf, ond mae'n parhau i wynebu pwysau ariannol cynyddol. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ostyngiad pellach yn y cyllid o 0.21% ar gyfer 2019/20 ac er mwyn cyflawni'r targed arbedion o £15.6 miliwn sy'n deillio o hyn, cyflwynwyd rhestr o doriadau arfaethedig ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

Meddai'r Aelod Cabinet dros Gyllid, y Cyng. Barbara Jones, "Nid oes unrhyw un ohonom eisiau bod mewn sefyllfa lle mae'n rhaid inni ystyried torri gwasanaethau neu godi treth y cyngor yn ôl y ganran yr ydym yn ei chynnig, ond mae'r sefyllfa ariannol sy'n ein hwynebu mewn gwirionedd yn dir newydd ar gyfer llywodraeth leol, nid yn unig yng Nghaerffili, ond ledled Cymru a thu hwnt."

## Mae rhai o'r pwyntiau allweddol a gynhwysir yn y cynigion yn cynnwys:

- Lleihau gwaith glanhau'r strydoedd, torri gwair, a chynnal a chadw priffyrdd.
- Cau dwy Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref.
- Lleihau'r gwariant ar lyfrgelloedd, ieuenctid, gwasanaethau i oedolion, a darpariaeth gofal dydd.
- Lleihau cyllidebau'r ysgolion a mentrau'r ysgolion.
- Dod â'r gwasanaeth Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol i ben.
- Cau toiledau cyhoeddus a phedair canolfan gymunedol.
- Codi prisiau prydau ysgol.
- Dod â'r gwasanaeth Pryd ar Glud i ben (heblaw yn achos cleientiaid o dan adran 117).
- Cynnydd arfaethedig o 6.95% yn nhreth y cyngor, a fyddai'n cyfateb i gynnydd blynyddol o £73.51, neu gynnydd wythnosol o £1.41 yn seiliedig ar eiddo Band D.

Ychwanegodd Arweinydd y Cyngor, y Cyng. Dave Poole, "Mae'n torri'r galon ein bod yn gorfod ystyried rhai o'r cynigion hyn hyd yn oed, ond mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu cyllideb gytbwys ac felly nid oes gennym unrhyw opsiwn. Ni allaf ond ailadrodd bod yr amser wedi dod lle bydd angen gwneud rhai penderfyniadau anodd."

**Gweler y tudalennau canol am fwy o fanylion am y cynigion arbedion a sut y gallwch ddweud eich dweud.**

**Cyng Dave Poole**
Arweinydd y Cyngor

**Cyng Barbara Jones**
Aelod y Cabinet dros Gyllid

# Eich **Cartrefi.** Eich **Dyfodol.**

Mae Strategaeth Pum Mlynedd Rheoli Asedau Cartrefi Caerffili wedi ei chytuno ac mae'n amlinellu'r dull a gymerir i sicrhau bod ei bortffolio tai yn parhau i ddarparu cartrefi o ansawdd fforddiadwy sy'n diwallu anghenion cwsmeriaid i'r dyfodol.

## Mae'r Strategaeth yn cynnwys:

**Mae'r cyngor wedi cytuno ar weledigaeth ar gyfer dyfodol tai ar draws bwrdeistref sirol Caerffili dros y blynyddoedd nesaf.**

- **Cynlluniau i sicrhau bod cartrefi sy'n eiddo i'r cyngor yn cael eu cynnal i Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) ar ôl cwblhau'r rhaglen yn 2020.**
- **Cynlluniau i gynnal rhaglen o inswleiddio allanol ar gyfer yr eiddo hynny sydd ag effeithlonrwydd ynni thermol gwael, a drefnwyd i ddechrau yn 2020.**
- **Cynlluniau i sicrhau'r defnydd gorau o eiddo a dderbyniodd addasiadau fel rhan o raglen SATC y cyngor i ddiwallu anghenion penodol tenantiaid posibl.**
- **Cynlluniau i wneud y gorau o'r defnydd o asedau presennol, yn ailfodelu nifer o gynlluniau tai lloches, a chynlluniau i ddatblygu cartrefi cyngor newydd a fyddai'n cefnogi adfywio trefi a chymunedau.**

## Tai Cyngor Newydd

**Cytunodd Aelodau'r Cabinet ar gynlluniau uchelgeisiol a fydd yn gweld y cyngor yn dechrau datblygu cartrefi cyngor newydd, gyda chefnogaeth buddsoddiad gan Grant Tai Fforddiadwy Llywodraeth Cymru.**

Mae dros 1.8 miliwn wedi'i ddyrannu ar gyfer 2019/20, yn dilyn estyniad o gyllid i awdurdodau lleol. Bydd astudiaethau dichonolrwydd yn cael eu cynnal ar nifer o safleoedd ledled y fwrdeistref sirol i nodi'r rhai mwyaf addas i'w datblygu. Yn ogystal ag adeiladu cartrefi newydd, bydd y cyngor hefyd yn archwilio opsiynau i gynyddu'r cyflenwad o dai cyngor trwy ddulliau eraill, gan gynnwys prynu eiddo gwag a ddewiswyd.

Dywedodd y Cyng. Dave Poole, Arweinydd y Cyngor, "Nid oes cartrefi cyngor newydd wedi'u hadeiladu ym mwrdeistref sirol Caerffili ers 2003, a'r llynedd gwnaethom ymrwymiad i'n trigolion fod datblygu cartrefi cyngor newydd yn flaenoriaeth allweddol i ni. Dywedasom y llynedd y byddem yn gobeithio bod mewn sefyllfa i fynd â'r flaenoriaeth hon ymlaen erbyn 2020, felly rwy'n falch o ddweud ein bod eisoes yn dechrau cyflawni hyn yn 2018.

## Cymeradwyo Glasbrint Tai

**Mae cyngor bwrdeistref sirol Caerffili wedi cymeradwyo glasbrint tai uchelgeisiol a allai arwain at adeiladu mwy na 450 o gartrefi newydd mewn 5 safle strategol allweddol ar draws yr ardal.**

Mae 5 darn o dir, sef cyfanswm o 50+ erw, wedi eu nodi ar gyfer cyfleoedd datblygu yn y dyfodol, gan gynnwys cyfran sylweddol o dai fforddiadwy.

*Y Cyng. Phipps a'r Cyng. Poole yn hen safle'r cyngor ym Mhontllan-fraith.*

Dywedodd y Cyng. Lisa Phipps, Aelod Cabinet dros Gartrefi a Lleoedd, "Mae'r darnau o dir hyn sy'n dros ben yn addas ar gyfer datblygu tai a byddant yn helpu'r cyngor i gwrdd â'n gofyniad i ddarparu cartrefi newydd fel y nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol."

"Byddwn yn gweithio'n agos gyda darpar ddatblygwyr i sicrhau bod unrhyw gynlluniau newydd yn cynnwys elfen o dai fforddiadwy. Credwn fod y cynigion hyn yn cydbwyso'r angen i gynhyrchu incwm i'r awdurdod wrth waredu tir dros ben gydag anghenion tai fforddiadwy'r gymuned gyfagos," ychwanegodd.

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi cyngor
We're committed to increasing the supply of council homes

Eich **Cartrefi.** Eich **Dyfodol.** Your **Homes.** Your **Future.**

# GWELEDIGAETH 10 MLYNEDD I GAEL
# ‘mwy o bobl, yn fwy egnïol, yn fwy aml’

**Mae Cabinet y cyngor wedi cytuno ar strategaeth uchelgeisiol a fydd yn llunio dyfodol chwaraeon a hamdden egnïol ar draws yr ardal am y degawd nesaf.**

Y mis diwethaf, rhoddodd y Cabinet ganiatâd i’r strategaeth ganlynol yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus eang. Mae Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol CBSC yn canolbwyntio ar ystod amrywiol o gyfleoedd chwaraeon a gweithgareddau corfforol a ddarperir gan y cyngor, ar y cyd â'i phartneriaid allweddol.

Mae'r strategaeth yn amlinellu cyflwyno meysydd allweddol yn y dyfodol, gan gynnwys parciau gwledig, llwybrau beicio a cherdded, canolfannau hamdden, meysydd chwarae, caeau chwaraeon, parciau sglefrio a chyfleusterau awyr agored amrywiol sydd ar gael i'r gymuned eu mwynhau.

Dywedodd y Cyng. Nigel George, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth, "Mae gan y cyngor weledigaeth 10 mlynedd i gael mwy o bobl, yn fwy egnïol, yn fwy aml ac mae'r strategaeth hon yn cwmpasu'r ystod o gyfleoedd chwaraeon a gweithgareddau corfforol a ddarperir ledled ein cymunedau."

"Hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd amser i roi eu barn yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus gan fod yr adborth hwn wedi bod yn amhrisiadwy ac yn caniatáu i drigolion helpu i lunio dyfodol y maes gwasanaeth allweddol hwn."

"Byddwn ni nawr yn tynnu ein sylw at gyflawni'r strategaeth, ond mae'n bwysig pwysleisio mai cynllun 10 mlynedd yw hwn ac mae angen inni roi ystyriaeth ofalus i'r holl gynigion yn y ddogfen cyn i unrhyw benderfyniadau pellach gael eu cymryd," meddai.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cyng. Dave Poole, "Mae'r strategaeth hon yn ymwneud â'n gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer chwaraeon a hamdden egnïol ac rydym am sicrhau ein bod yn gallu cyflawni canlyniadau cadarnhaol yn erbyn cefndir o bwysau ariannol anodd iawn."

# Gwaith ar gylchfan Pwll-y-pant wedi ei gwblhau

**Bydd trigolion, modurwyr a busnesau yn croesawu'r newyddion bod gwaith gwella cylchfan Pwll-y-pant yng Nghaerffili wedi'i gwblhau - mewn da bryd ar gyfer cyfnod masnachu prysur y Nadolig.**

Bydd y cynllun diwygio, a ddechreuodd ym mis Hydref y llynedd, yn gwella llif y traffig yn y lleoliad strategol allweddol hwn, yn ogystal â lleihau tagfeydd a gwella dibynadwyedd amseroedd teithio.

Er mai amcangyfrifon cychwynnol oedd y byddai'r cynllun yn cael ei gwblhau o fewn 52 wythnos, roedd tywydd garw a ffactorau eraill, gan gynnwys newid y rhaglen i ailagor dwy lôn i'r de o Lanbradach yn gynharach na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol mewn ymateb i alwadau gan aelodau'r cyhoedd, yn golygu bod yn rhaid ymestyn y rhaglen. Y newyddion da yw bod y gwaith bellach wedi'i gwblhau - mewn pryd ar gyfer y cyfnod masnachu prysur cyn y Nadolig.

Meddai'r Cyng. Sean Morgan, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Isadeiledd, "Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth bod pawb wedi croesawu cwblhau'r cynllun.

"Roeddem yn amlwg yn ymwybodol iawn bod y rhaglen wedi ymestyn y tu hwnt i'r 52 wythnos a drefnwyd yn wreiddiol, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, a hefyd yr angen i sicrhau bod masnachwyr lleol yn gallu manteisio'n llawn ar y cyfnod masnachu prysur cyn y Nadolig heb unrhyw amhariad.”

Y gwaith terfynol ar y safle oedd cynnau’r goleuadau traffig, gyda'r system arwyddion traffig newydd wedi'i chynllunio i reoli a chydbwyso llifoedd rhwng pob cyffordd. Bydd cyfnod setlo i mewn yn ystod yr ychydig wythnosau cyntaf lle bydd y system yn dysgu lle mae'r blaenoriaethau llifo, ac wedyn yn cael eu haddasu er mwyn ceisio sicrhau nad oes gan unrhyw un fraich ormod o giwiau.



**Mae'r cynllun, a ariannwyd o ganlyniad i gyfraniadau datblygwyr a chyllid grant Llywodraeth Cymru, wedi cwblhau'r gwelliannau fel a ganlyn:**

- Rheoli rhannol amser llawn o’r gylchfan gan oleuadau.
- Ymgorffori croesfan i gerddwyr ar yr **A468** Braich Trecenydd.
- Troedffordd newydd sy'n cysylltu'r bont gerddwyr bresennol i'r droedffordd ar Heol Pontygwindy.
- Ffordd drylifo ychwanegol ar ddynesfa yr **A469** Braich Llandradach ac ymestyn y ffyrdd trylifo presennol.
- Creu dynesfa lôn ddeuol a ffordd drylifo ychwanegol ar yr **A468** Braich Bedwas ac ymestyn y ffyrdd drylifo presennol.
- Creu ffordd drylifo ychwanegol ar Fraich Heol Pontygwindy ac ymestyn y ffyrdd drylifo presennol.
- Creu dynesfa ffordd ddeuol ar yr **A468** Braich Trecenydd.
- Mae allanfeydd dwy lôn wedi cael eu hymestyn ar yr **A468** Braich Trecenydd a Braich Bedwas.

Ychwanegodd y Cyng. Sean Morgan,"Yn sicr, mae'r gwaith wedi tarfu ar drigolion, modurwyr a'r gymuned fusnes, ac mae'n rhaid i mi ddiolch i bawb am eu hamynedd tra'r oedd y gwaith pwysig hwn yn cael ei gwblhau."

# CAERFFILI LANACH A GWYRDDACH

**Mae'n debyg y bydd canol tref Caerffili ymhlith cyfnewidfeydd cludiant cyhoeddus gwyrddaf y Deyrnas Unedig, diolch i strategaeth uchelgeisiol y Cyngor a'r cynnig cyllid a arweinir gan gwmni bysiau, Stagecoach.**

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i wneud y gorau o botensial Caerffili i fod yn ganol tref cynaliadwy blaenllaw, a hithau mewn lleoliad strategol allweddol wrth galon rhanbarth y Cytundeb Dinesig.

Mae'r cwmni bysiau, Stagecoach, hefyd wedi gwneud cais am £3.45 miliwn gan yr Adran Drafnidiaeth i addasu ei fflyd o fysiau, sy'n gwasanaethu canol tref Caerffili, o ddiesel i drydan. Mae'r cynnig, sy'n cynnwys buddsoddiad o £4.6miliwn gan Stagecoach, yn ffurfio gallai'r cais, sy'n rhan o'r Cynllun Bysiau Allyriadau Isel Iawn, arwain at gyflwyno 21 o fysiau trydan newydd a sefydlu mannau gwefru arferol a gwefru cyflym yn nepo'r cwmni ym Medwas.

Cafodd y newyddion ei groesawu gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Dave Poole: "Dyma gyfnod cyffrous i Gaerffili, diolch i'n cynlluniau uchelgeisiol i y ffordd yn y Deyrnas Unedig drwy gyflawni strategaeth arwain drafnidiaeth gynaliadwy, a hoffem hefyd ganmol Stagecoach am ei gynlluniau mentrus. Mae'n braf gweld bod gennym ni weledigaeth gyffredin i sicrhau bod Caerffili ymhlith cyfnewidfeydd trafnidiaeth gwyrddaf y wlad."

**Mae hefyd ddisgwyl i'r rheilffyrdd yn y fwrdeistref sirol gael eu trydaneiddio erbyn 2023 yn rhan o'r prosiect cyffrous, Metro De Cymru.**

Ychwanegodd y Cynghorydd Sean Morgan, Dirprwy Arweinydd y Cyngor: "Mae'n debyg y bydd teithwyr yn manteisio ar rwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus gynaliadwy sy'n cynnig cerbydau newydd sbon, heb allyriadau, ac amseroedd teithio byrrach. Bydd y cyfan yn cynnig dewis amgen go iawn yn lle teithio yn y car i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth a hamdden."

Yn ddiweddar, cafodd Strategaeth Cerbydau Trydan newydd ei chymeradwyo gan Gabinet y Cyngor. Mae'r Strategaeth yn amlinellu dyheadau'r Awdurdod i ddarparu isadeiledd newydd ar gyfer cerbydau trydan ar draws yr ardal. Mae'r Cyngor hefyd wedi dechrau defnyddio cerbyd trydan hybrid fel ei 'gar swyddogol' – sy'n cael ei ddefnyddio gan y Maer, yr Arweinydd, a'r Uwch Swyddogion, ac ar gyfer llawer o faterion busnes eraill.

## Ni ddylai darllenwyr sy'n chwilio am her y Flwyddyn Newydd edrych ymhellach na 10 Cilomedr Caerffili Bryn Meadows, a ddychwelir ar Ddydd Sul 19eg Mai 2019.

Eleni, mae trefnwyr yn cynnig cymhelliant Nadolig a Blwyddyn Newydd arbennig i gofrestru â chymryd rhan yn y ras; cofrestrwch am y 10 Cilomedr rhwng dydd Llun 10fed Rhagfyr a dydd Gwener 11eg Ionawr 2019 a derbyn crys-t hyfforddi 10 Cilomedr Caerffili am ddim.

Wedi'i osod yn erbyn cefndir Castell Caerffili, bydd 10 Cilomedr Caerffili Bryn Meadows yn arwain cyfranogwyr o gwmpas canol tref Caerffili, gan fynd heibio nifer o dirnodau eiconig a golygfeydd gwych ar hyd y ffordd.

Hefyd yn dychwelyd ar gyfer 2019 mae ras 2 Gilomedr Caerffili, sy'n cynnig cyfle i redwyr ifanc brofi'r digwyddiad wedi'i amseru mewn llai o bellter. Rhaid i gyfranogwyr ar gyfer y ras 2 Gilomedr fod o leiaf 8 mlwydd oed ar ddiwrnod y digwyddiad er mwyn cymryd rhan.

**Pris cofrestru ar gyfer y 10 Cilomedr yw £20 i redwyr sydd ddim yn perthyn i glwb a £18 i redwyr sydd yn perthyn i glwb a chonsesiynau, tra bod pris cofrestru yn y ras 2 Gilomedr yn £6.50.**

Trefnir y digwyddiad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac fe'i cefnogir gan Athletau Cymru, Rhedeg Cymru a Chwaraeon Cymru.

**I gofrestru ar gyfer y 10 Cilomedr ac i dderbyn crys-t hyfforddi AM DDIM, ewch i**

**http://your.caerphilly.gov.uk/10k/cy**

**e-bost: 10cilomedr@caerffili.gov.uk Ffôn: 029 2088 0011**

# Gorfodi Parcio Sifil

**Bwriedir i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gymryd drosodd dyletswyddau Gorfodi Parcio Sifil gan Heddlu Gwent ym mis Ebrill 2019.**

Bydd trosglwyddo pwerau Gorfodaeth Sifil yn caniatáu i'r cyngor ddarparu dull cydlynol a chyson o orfodi rheoliadau traffig a bydd yn helpu i wella diogelwch ar y ffyrdd, llif traffig a lleihau rhwystrau. O'r dyddiad hwn, bydd swyddogion gorfodi sifil yn ymgymryd â dyletswyddau gorfodi mewn trefi a phentrefi ar draws bwrdeistref sirol Caerffili ac, os canfyddir bod cerbyd yn cael ei barcio'n anghyfreithlon, mae'n bosibl y bydd yn cyhoeddi Rhybudd Tâl Cosb.

Mae deddfwriaeth yn pennu y bydd unrhyw weddill a grèir drwy gyhoeddi Gorfodi Parcio Sifil yn cael ei ail-fuddsoddi yn y rhwydwaith priffyrdd.

Bydd y mesurau newydd yn caniatáu i'r cyngor ganolbwyntio ar fuddiannau trigolion, busnesau lleol a gweithredwyr cludiant trwy dargedu parcio preswyl a chanol y dref a chamddefnyddio mathau penodol o barcio megis mannau parcio i'r anabl, ardaloedd llwytho, arosfannau bysiau a llinellau melyn dwbl.

Ar hyn o bryd Gwent yw'r unig ardal heddlu i barhau i orfodi parcio a bydd trosglwyddo pwerau i'r cyngor yn dod â Chaerffili a phob awdurdod lleol arall yng Ngwent yn unol â gweddill Cymru.

**Bydd canllawiau manylach yn cael eu cyhoeddi yn y flwyddyn newydd.**

**PARCIWCH YN GALL**

**Oes arwydd? Oes llinellau?**
**OSGOWCH Y GOSB**

## Dadorchuddio Plac i gofio cyn Arweinwyr

**Mae plac wedi'i gysegru i gyn Arweinwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cael ei ddadorchuddio ym mhencadlys y cyngor, Tŷ Penallta.**

Ariannodd Arweinydd presennol y cyngor, y Cyng. Dave Poole, y pryniant a gosod y plac yn bersonol, sy'n manylu Arweinwyr y Cyngor ers i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddechrau ym 1996.

Dywedodd y Cyng. Dave Poole, "Rydym yn gwneud llawer i ddiolch i gyn-benaethiaid dinesig am eu cyfraniad yn ystod eu blwyddyn yn y swydd - a chyda rheswm da, ond cefais fy nharo na wnaethom fawr ddim i ddiolch i gyn Arweinwyr am eu blynyddoedd o wasanaeth.

"Wedi gweithio ochr yn ochr â nifer o Arweinwyr blaenorol y Cyngor, a bellach yn Arweinydd fy hun, gwn pa mor galed y buont yn gweithio er lles ein cymunedau. Roedd yn ymddangos yn addas iawn i gael y plac hwn wedi'i osod ym mhencadlys ein cyngor i ddiolch iddynt am eu gwasanaeth."

Cafodd y plac ei ddadorchuddio gan wragedd tri chyn-arweinydd y cyngor, Harry Andrews MBE, Allan Pritchard a Keith Reynolds nad ydynt, yn anffodus, gyda ni bellach. Hefyd yn bresennol yn y dadorchuddiad oedd cyn Arweinwyr y cyngor, Graham Court a'r Cyng. Lindsay Whittle.

## Trefniadau Casglu ac Ailgylchu Gwastraff Nadolig

| Diwrnod Casglu Arferol: | Diwrnod Casglu Diwygiedig: |
|---|---|
| Dydd Llun 24ain Rhagfyr | Diwrnod Casglu Arferol |
| Dydd Mawrth 25ain Rhagfyr | Dydd Iau 27ain Rhagfyr |
| Dydd Mercher 26ain Rhagfyr | Dydd Gwener 28ain Rhagfyr |
| Dydd Iau 27ain Rhagfyr | Dydd Sadwrn 29ain Rhagfyr |
| Dydd Gwener 28ain Rhagfyr | Dydd Sul 30ain Rhagfyr |
| Dydd Llun 31ain Ionawr 2018 | Diwrnod Casglu Arferol |
| Dydd Mawrth 1af Ionawr | Dydd Mercher 2il Ionawr |
| Dydd Mercher 2il Ionawr | Dydd Iau 3ydd Ionawr |
| Dydd Iau 3ydd Ionawr | Dydd Gwener 4ydd Ionawr |
| Dydd Gwener 4ydd Ionawr | Dydd Sadwrn 5ed Ionawr |

**Sylwer: Ni fydd unrhyw gasgliadau ar ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan neu ddydd Calan. Atgoffir preswylwyr i roi eu biniau, eu blychau neu eu bagiau allan i'w casglu cyn 6am ar eu diwrnod casglu diwygiedig.**

- Bydd ailgylchu ychwanegol yn cael ei gasglu os caiff ei roi mewn **BAGIAU CLIR**.
- Bydd canolfannau ailgylchu ar gau ar Ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan a Dydd Calan.
- Bydd Toiledau Cyhoeddus hefyd ar gau ar Ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan a Dydd Calan.

**Am fwy o wybodaeth am ailgylchu, ewch i www.caerffili.gov.uk/ailgylchu neu ffoniwch 01443 866 533**

# Mae Caerffili yn dathlu 20 MLYNEDD o ailgylchu

**Eleni, mae 20 mlynedd ers dechrau'r cynllun casglu ailgylchu ymyl y ffordd, gyda phreswylwyr bwrdeistref sirol Caerffili yn parhau i helpu i sicrhau bod Caerffili ar flaen y gad o ran ailgylchu yng Nghymru - yn union fel y gwnaethant 20 mlynedd yn ôl.**

Yn ôl ym 1998, dechreuodd y cyngor, mabwysiadwr cynnar ar gyfer y cynllun, ei wasanaeth casglu ailgylchu ar gyfer ailgylchu poteli, jariau, caniau, papurau newydd a chylchgronau. Darparwyd blwch plastig gwyrdd i breswylwyr ar gyfer deunyddiau wedi'u hailgylchu, ac yn y flwyddyn gyntaf yn unig, cyflawnodd y cyngor gyfradd ailgylchu o bron i 2%.

20 mlynedd yn ddiweddarach, ac mae preswylwyr bwrdeistref sirol Caerffili wedi helpu i sicrhau bod y cyngor yn parhau i fod yn un o'r ardaloedd blaenllaw yng Nghymru ar gyfer ailgylchu. Mae ffigurau diweddar a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn dangos mai Caerffili yw'r ardal flaenllaw yn ardal Gwent ar gyfer ailgylchu, gyda 66.7% o'r holl wastraff a gynhyrchir ar draws yr ardal yn 2017/18 yn cael ei ailddefnyddio, ei gompostio neu ei ailgylchu.

**Hyd yn oed yn well na hyn, am y tri mis cyntaf o 2018/19, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'i breswylwyr wedi llwyddo i gyrraedd cyfradd ailgylchu o 72% – yn rhagori ar y targedau uchelgeisiol y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gosod i gynghorau ledled Cymru.**

Dywedodd y Cyng. Nigel George, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth, "Rydym yn sicr yn croesawu'r ffigurau ailgylchu diweddaraf hyn a hoffem ddiolch yn fawr i'r holl breswylwyr ar draws ein hardal sy'n gwneud eu rhan i'n helpu ni i ragori ar y targedau ailgylchu uchelgeisiol sydd wedi eu gosod inni.

"Mae yna waith i'w wneud o hyd, ond trwy barhau i weithio gyda'n gilydd, gallwn gynyddu ein cyfraddau ailgylchu ymhellach a helpu Caerffili i barhau i fod yn un o'r lleoedd gwyrddaf yng Nghymru."

Mae'r cyngor hefyd yn ceisio rhoi hwb pellach i'r ffigwr ailgylchu trawiadol hwn, trwy annog pob breswylydd ar draws bwrdeistref sirol Caerffili i ailgylchu eu gwastraff bwyd bob wythnos. Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae tîm o gynghorwyr ailgylchu wedi bod yn ymweld â phreswylwyr i esbonio manteision y gwasanaeth casglu ymyl y ffordd wythnosol hwn.

Ar hyn o bryd, mae'r cynllun ailgylchu gwastraff bwyd yn cael ei ddefnyddio gan tua 50% o gartrefi, gyda'r gwastraff bwyd wedi'i ailgylchu yn cael ei brosesu trwy dreulio anaerobig, sy'n troi'r gwastraff yn ynni. Fel cymhelliant i gynyddu cyfranogiad ymhellach, mae'r cyngor wedi bod yn rhedeg raffl fawr, gan ddewis aelwydydd sy'n cymryd rhan yn yr ardal ar hap i ennill talebau y stryd fawr werth £50 am wneud eu cyfraniad.

Mae cadis gwastraff bwyd yn **RHAD AC AM DDIM** a gellir eu harchebu trwy wefan y cyngor **www.caerffili.gov.uk/ailgylchu** neu drwy ffonio **01443 866533**

# Ydych chi'n adnabod Arwr y Stryd Fawr?

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn lansio menter newydd gyffrous i ddathlu strydoedd mawr lleol a'r manwerthwyr sy'n gweithio'n galed sy'n eu gwneud yn arbennig. Rydym yn chwilio am fusnesau sy'n darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol, yn cynnig gwerth am arian ac yn dangos gwybodaeth am gynnyrch gwych.**

Felly, os mai'ch cigydd yw'r gorau yn y busnes, os yw'ch steilydd yn well na'r gweddill neu os ydych chi'n gwybod ble i ddod o hyd i'r cwpanaid o goffi gorau yn y dref, rydym am i chi roi gwybod i ni er mwyn i ni allu sicrhau eu bod yn cael y gydnabyddiaeth y maent yn ei haeddu. Bydd pob busnes a enwebir yn derbyn sticer ffenestr a thystysgrif yn ogystal â'u rhestru ar ein gwefan Arwyr y Stryd Fawr, lle bydd pob enwebiad ac adolygiadau ar gael i'w darllen.

Dywedodd y Cyng. Sean Morgan, Aelod Cabinet dros yr Economi: "Diolch i ymroddiad ac ymrwymiad masnachwyr, mae strydoedd mawr yn parhau i fod yn galon i'n cymunedau lleol. Y tu ôl i bob blaen siop, mae unigolyn dawnus, teulu sy'n gweithio'n galed neu dîm ymroddedig o gydweithwyr. Mae 'Arwyr y Stryd Fawr' yn rhoi cyfle i gwsmeriaid hen a newydd i ddweud diolch wrth yr unigolion a'r busnesau sy'n gwneud gwahaniaeth."

Er mwyn enwebu Arwr Y Stryd Fawr ewch i Facebook.com/CaerphillyCBC neu Twitter @CaerphillyCBC. Does dim ffurflen cymhleth, yr unig beth y mae'n rhaid i chi ei wneud yw rhoi gwybod i ni pa fusnes yr hoffech ei enwebu a pham y maent yn gwneud eich profiad siopa y gorau all e' fod.

Am fwy o wybodaeth ewch i: **www.caerffili.gov.uk/ArwyrYStrydFawr**

MAE EIN CWSMERIAID YN DWEUD EIN BOD YN ARWR STRYD FAWR

OUR CUSTOMERS SAY WE'RE A HIGH STREET HERO

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn annog ei drigolion i fod yn wyliadwrus er mwyn iddynt osgoi bod yn ddioddefwyr twyll yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig.**

Yn ddiweddar, talodd un o drigolion bwrdeistref sirol Caerffili swm mawr o arian i unigolyn a oedd yn honni ei fod yn un o swyddogion rheoli plâu y Cyngor. Cafwyd gwybod hefyd am nifer o drigolion yn cael eu targedu ar gyfer gwaith garddio, er bod tywydd y gaeaf wedi cyrraedd.Hoffai'r Cyngor ddatgan na fydd unrhyw berson sy'n gweithio i'r Cyngor, neu ar ei ran, yn gofyn am daliadau arian parod am wasanaeth.

Meddai'r Cynghorydd Mrs Eluned Stenner, Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili: "Rhaid i mi bwysleisio eto bod rhaid i drigolion fod yn fwy gofalus yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig i atal unrhyw un sy'n byw ym mwrdeistref sirol Caerffili rhag bod yn ddioddefwr twyll. Byddwch yn ofalus a chadwch yn ddiogel, ac os oes gennych unrhyw amheuon rhowch wybod i'r heddlu drwy ffonio 101 neu i adran Safonau Masnach y Cyngor drwy ffonio 01443 811300 neu ebostiwch safonaumasnach@caerffili.gov.uk."

# MAE'R FFLIW YN LLADD

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan Health Board

## Amddiffynnwch eich hun ac eraill

Os ydych:

- yn 65 oed neu'n hŷn,
- yn feichiog, neu
- yn dioddef o salwch hirdymor.

**Dylech gael pigiad ffliw rhad ac am ddim bob blwyddyn gan eich meddyg teulu neu'ch Fferyllfa Leol.**

**CURWCH Y FFLIW CYN IDDO'CH CURO CHI!** www.curwchffliw.org

CURWCH FFLIW BEAT FLU

facebook.com/curwchffliw twitter.com/curwchffliw www curwchffliw.org

# Dewis Fferyllfa

**Ydych chi angen gweld y meddyg heddiw? Os mai un o'r rhain ydyw...**

camdreuliad, rhwymedd, dolur rhydd, y peils, clwy'r gwair, llau pen, torri dannedd, brech glytiau, colig, brech yr ieir, llyngyr edau, dolur gwddw, tarwden y traed, llid yr amrannau, briwiau yn y geg, doluriau annwyd, acne, dermatitis, dafaden, poen cefn, casewinedd, llindag y wain, llindag y geg, clefyd crafu.

**Gall eich Fferyllydd roi cyngor a thriniaeth gyfrinachol GIG, yn rhad ac am ddim, heb ichi orfod trefnu i weld eich meddyg teulu.**

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Dewis doeth Choose well

# Cofrestrwch a bod yn fwy diogel mewn eiliadau

Register my appliance

**Mae'r Nadolig bron yma a bydd llawer o bobl yn meddwl am brynu offer cartref newydd, felly mae'r cyngor yn awyddus i atgoffa defnyddwyr am fenter ddiogelwch bwysig.**

Os ydych yn prynu oergell, rhewgell neu beiriant golchi newydd, mae'n hollbwysig bod y gwneuthurwr yn gwybod ble i ddod o hyd i chi os oes angen trwsio rhywbeth er mwyn diogelwch.

Yn wahanol i geir, nid yw'r cynhyrchion hyn yn cael eu cofrestru'n awtomatig ac mae'n hawdd anghofio, ond drwy gofrestru'ch prif offer gyda'r gwneuthurwyr yn **www.registermyappliance.org.uk**, cysylltir â chi yn gyflym os bydd angen gwneud atgyweiriad pwysig am ddim er mwyn diogelwch.

Y cwbl sydd ei angen i gofrestru yw rhif cyfresol y cynnyrch, a geir ar blât data'r offer (ar ffrâm ddrws ffwrn, ar ddrws peiriannau golchi a thu mewn i'r oergell).

## Yn ogystal, dyma rai Awgrymiadau Gorau ar gyfer Prynu offer ar-lein:

- **Gwiriwch oddi wrth bwy rydych yn ei brynu.** Yn union fel ar y stryd fawr, chwiliwch am werthwyr dibynadwy yr ydych yn eu hadnabod, neu gwiriwch beth mae prynwyr eraill yn ddweud.
- **Ymchwiliwch raddfeydd ac adolygiadau.** Dewiswch y model gorau i'ch cartref.
- ***Gwiriwch y rhestr adalw.*** Dewch o hyd i unrhyw gynnyrch na ddylech ei brynu yn ***https://productrecall.campaign.gov.uk***
- **Wrth gwrs, cymharwch brisiau.** Rydyn ni i gyd yn caru bargen, ond os yw'n edrych yn rhy dda i fod yn wir, mae'n debyg ei fod.

## Unwaith y bydd eich peiriant newydd yn y cartref

- **Cofrestrwch eich cynnyrch gyda'r gwneuthurwr.** Byddwch yn gyntaf i wybod am adalw neu atgyweirio diogelwch. Mae'n gyflym ac yn hawdd ar **www.registermyappliance.org.uk**
- **Dilynwch y cyfarwyddiadau gosod a defnyddio.** Ar gyfer y perfformiad gorau a mwyaf diogel.
- **Gwefrwch a rhowch eich peiriant ymlaen yn gywir.** Cadwch eich hun a'ch cartref yn ddiogel. Peidiwch â chymysgu gwefrwyr batri rhwng cynhyrchion trydanol a gwiriwch bod plygiau 'smart' yn addas i'w defnyddio gyda'ch peiriant.
- **Wedi dod o hyd i fater diogelwch? Dywedwch!** Rhowch wybod am broblemau diogelwch cynnyrch i'ch adwerthwr neu'ch gwneuthurwr a gadael i'r safonau masnachu wybod.

**Wedi gorffen! Bydd eich teulu yn fwy diogel mewn eiliadau.**

Wrth glicio ar y brand yn **www.registermyappliance.org.uk/registration/** a rhoi enw'r model i mewn, mae'r mwyafrif o wneuthurwyr yn dangos ble i ddod o hyd i'r data.

# Gwaith ceuffos hanfodol yn Ystrad Mynach

**Bydd gwaith hanfodol yn digwydd yn y Flwyddyn Newydd yn Stryd Fasnachol, Ystrad Mynach.**

Nodwyd gwaith adfer hanfodol (rhagweithiol) gan Dîm Peirianneg Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i adnewyddu'r geuffos sy'n teithio o dan Heol Penallta i sicrhau bod diogelwch cerddwyr a defnyddwyr y ffyrdd yn cael ei gynnal.

Rhagwelir y bydd y cynllun yn cychwyn ganol mis Ionawr a disgwylir i'r gwaith gymryd tua 10 wythnos. Er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau mor gyflym a diogel â phosib, bydd cau hanfodol yn digwydd ar hyd rhan fach o ffordd sy'n cychwyn ar Heol Penallta ac yn dod i ben ar gyffordd Heol Penallta, Heol Bedwlwyn a Stryd Fasnachol.

Dywedodd y Cyng. Sean Morgan, Aelod o'r Cabinet sy'n gyfrifol am isadeiledd: "Mae'r gwaith hanfodol hwn wedi ei drefnu ar gyfer y Flwyddyn Newydd i leihau'r tarfu ar fusnesau a phreswylwyr dros gyfnod y Nadolig, gyda mynediad i gerddwyr yn cael ei gynnal trwy'r gwaith i bob busnes ac eiddo preswyl. Penderfynwyd defnyddio unedau rhag-gastiedig wedi'u hatgyfnerthu, yn hytrach na dulliau adeiladu eraill er mwyn lleihau faint o amser y bydd y ffordd ar gau. Byddwn yn cysylltu â phreswylwyr, busnesau a chwmnïau cludo lleol i amlinellu'r gwaith arfaethedig cyn ei gychwyn."

Bydd y gwaith hwn yn cael ei ariannu yn bennaf gan Lywodraeth Cymru ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

## Gofynion draenio newydd

Bydd newidiadau arwyddocaol i ofynion draenio ar gyfer datblygiadau newydd yn dod i rym yn y Flwyddyn Newydd. O 7fed Ionawr, bydd pob datblygiad newydd o fwy na 1 tŷ, neu lle mae'r ardal adeiladu yn 100m2 neu fwy, yn gofyn am ddraenio cynaliadwy i reoli dŵr arwyneb ar y safle. Rhaid i systemau draenio dŵr gael eu dylunio ac adeiladu yn unol â safonau gorfodol ar gyfer draenio cynaliadwy. Rhaid i'r systemau hyn gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol, gan weithredu fel y Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.

**Mae gwybodaeth bellach ar gael ar ein gwefan www.caerffili.gov.uk** neu drwy gysylltu â draenio@caerffili.gov.uk

# Mae Diogelu yn Fusnes i Bawb

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymrwymedig i greu cymunedau gofalgar i sicrhau bod trigolion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu diogelu ac mae gennym oll gyfrifoldeb i sicrhau bod plant ac oedolion yn cael eu trin â pharch a'u diogelu rhag eraill a allai eu cam-drin. Os oes gennych unrhyw bryderon am blentyn, person ifanc neu oedolyn bregus, gallwch roi gwybod am eich pryderon yn gyfrinachol i'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

**Oedolion: 0808 100 2500**
I GCChOedolion@caerffili.gov.uk

**Plant: 0808 100 1727**
cyswlltacatgyfeirio@caerphilly.gov.uk

**Diogelu Gwent**
**Gwent Safeguarding**

# £11.5 miliwn yn cael ei fuddsoddi i drawsnewid Parc Lansbury

**Mae tua £11.5 miliwn wedi cael ei fuddsoddi, hyd yn hyn, i drawsnewid Parc Lansbury yng Nghaerffili.**

*Prif Swyddog Tai, Shaun Couzens; y Cyng. Dave Poole, Swyddog Ynni; Steve Martin a'r Cyng. Lisa Phipps.*

## Mae'r buddsoddiad yn cynnwys:

- **£4.4 miliwn** o welliannau Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) mewnol i gartrefi cyngor.
- **£4 miliwn** o waith effeithlonrwydd ynni a gwelliannau SATC allanol cysylltiedig i gartrefi'r cyngor.
- **£2 miliwn** o gyllid Arbed gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni'r cyngor a chartrefi preifat.
- **£680,000** o arian Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru i gefnogi gwelliannau i eiddo preifat.
- Cafodd **£500,000** hefyd ei rhoi o E.On fel rhan o gynllun ECO (Energy Company Obligation) i gefnogi'r rhaglen effeithlonrwydd ynni

Bellach mae inswleiddio wal allanol wedi ei osod i 519 o gartrefi sy'n eiddo i'r cyngor a 75 o eiddo preifat; gan helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella'r amgylchedd trwy leihau allyriadau carbon. Ar hyn o bryd mae'r cyngor yn archwilio cyfleoedd ariannu i gwblhau gwaith i'r eiddo preifat sydd ar ôl ym Mharc Lansbury.

Mae buddsoddiad yn y dyfodol a gynlluniwyd ar gyfer Parc Lansbury yn cynnwys £1.9 miliwn o raglen SATC y Cyngor i wneud gwelliannau allanol i lwybrau, waliau allanol, ffensys allanol ac ati. Mae'r cyngor hefyd wedi dyrannu £500,000 ar gyfer gwelliannau amgylcheddol SATC ym Mharc Lansbury; bydd y gwelliannau hyn yn cael eu penderfynu trwy ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned leol.

# Hwb ariannol i'r ysgolion Cymraeg

**Mae'r Cyngor wedi croesawu'r newyddion y bydd pum ysgol gynradd Gymraeg ar draws yr ardal yn elwa ar dros £6 miliwn gan Lywodraeth Cymru. Bydd y buddsoddiad, sydd werth £51 miliwn, yn cael ei ddefnyddio ar gyfer 41 o brosiectau ar draws 16 ardal awdurdod lleol.**

Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gynyddu nifer y lleoedd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, darparu rhagor o ofal plant, gwella cyfleusterau'r ystafell ddosbarth, a chaniatáu i ystafelloedd dosbarth dros dro gael eu dileu o lawer o'r safleoedd.

Cafodd y cyhoeddiad ei groesawu gan yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad, y Cyng.Philippa Marsden. Meddai: "Bydd y cyllid hwn yn ein galluogi ni i wneud gwelliannau sylweddol yn narpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar draws bwrdeistref sirol Caerffili."

"Yn ogystal â'r gwaith gwella ffisegol ar safleoedd yr ysgolion, bydd y cyllid hwn yn ein galluogi ni i greu 200 o leoedd ychwanegol mewn ysgolion Cymraeg er budd ein pobl ifanc, felly rydyn ni'n croesawu'n fawr y cyhoeddiad cyllido sylweddol hwn gan Lywodraeth Cymru."

"Mae'n bwysig pwysleisio mai rhaglen bum mlynedd yw hon, ond nawr bod y cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn wedi cael ei gymeradwyo, gallwn ystyried amserlennu'r rhaglenni gwaith hyn o ddifrif."

## Dyma'r pum ysgol ym mwrdeistref sirol Caerffili:

- **Ysgol Penalltau** Hengoed - **£730,935**
- **Ysgol Ifor Bach** Abertridwr - **£497,230**
- **Ysgol Gynradd Gymraeg Bro Allta** Ystrad Mynach - **£1,630,620**
- **Ysgol Gynradd Gymraeg Cwm Derwen** Oakdale - **£1,620,620**
- **Ysgol Gynradd Gymraeg Y Castell** Caerffili - **£1,648,495**

## Rhifau Defnyddiol
## Useful Numbers

**PRIF SWITSFWRDD**
**MAIN SWITCHBOARD**
☎ 01443 815588

**Minicom** Minicom
☎ 01443 873626

**Rhif argyfwng ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor:**
**Emergency Number for Council Services:**
☎ 01443 875500
(Allan o Oriau yn unig • Out of hours only)

**Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant**
**Children's Social Services**
☎ 0808 100 1727

**Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion**
**Adults' Social Services**
☎ 0808 100 2500

**BalchderStryd** StreetPride
☎ 01443 866566

**Cyngor i Ddefnyddwyr**
**Consumer Advice**
☎ 03454 040506

**Ymholiadau Treth y Cyngor**
**Council Tax Enquiries**
☎ 01443 863002

**Ailgylchu Dodrefn**
**Furniture Recycling**
☎ 01685 846830

**Bathodyn Glas** Blue Badge
☎ 01443 866571

**Budd-daliadau Tai /Treth y Cyngor**
**Housing & Council Tax Benefits**
Ceisiadau Newydd New Claims:
☎ 01443 866567
Hawlwyr Presennol Existing Claimants:
☎ 01443 864099

*Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg.*
*We welcome calls in Welsh.*

# Digwyddiadau / What

## 7/12/18 - 30/12/18
### Sefydliad y Glowyr Coed Duon
### Blackwood Miners' Institute

***Owen Money*** *yw seren y pantomeim llawn hwyl eleni gyda chast cyfan o actorion, cantorion a dawnswyr talentog. Paratowch eich hun am daith hwyliog, llawn caneuon, llawn-jôcs, llawn chwerthin trwy hud ac anhrefn gwlad y panto! Am fanylion, rhestr o berfformiadau, prisiau tocynnau ac archebion, ewch i wefan Sefydliad y Glowyr neu ffoniwch.*

*This year's fun-packed pantomime stars* ***Owen Money*** *and a whole cast of talented actors, singers and dancers. Prepare yourself for a fun-packed, joke-crammed, song-filled, fast-moving, laugh-a-minute ride through the magic and mayhem of panto land! For details, schedule of performances, ticket prices and bookings, please visit the BMI website or phone.*

**01495 227 206**

## Chwiliwch am Siôn Corn
## Search for Santa

## 5 - 6/12/2018 - 6pm
### Parc Gwledig Cwm Sirhywi
### Sirhowy Valley Country Park

*Byddwch angen batris newydd ar gyfer eich tortsh ar gyfer y daith gerdded yn ystod y nos gyffrous hon trwy'r goedwig wrth i ni chwilio am gliwiau yn ein chwiliad am Siôn Corn. Yn addas ar gyfer 5 oed a hŷn. Mae angen archebu lle ar gyfer y digwyddiad.*

*You'll need new batteries for your torch for this exciting night-time wander through woods as we look for clues in our search for Santa. Suitable for ages 5 and above. Booking required for this event.*

**01495 227206**

## Gwneud Dynion Eira Pren
## Wooden Snowman Making

## 8/12/2018 10am - 2pm
### Parc Cwm Darran

*Pwy ddywedodd fod angen eira arnoch i adeiladu dyn eira? Beth am fynd ati i wneud dyn eira pren gyda'r Gwarchodwyr ym Mharc Cwm Darran? Gallwch hefyd archebu dyn eira pren o'r Parc a'i gasglu, os nad ydych yn dymuno gwneud un. I archebu un, ffoniwch 01443 875557. Cost: £5 y dyn eira pren ac mae angen archebu ar gyfer y digwyddiad hwn.*

*Who said you need snow to build a snowman? Why not have a go at making a wooden snowman with the Rangers at Parc Cwm Darran? You can also order a wooden snowman from the Parc and collect it, if you don't fancy making one. You can order one by phoning 01443 875557. Charge: £5 per wooden snowman and booking required for this event.*

**01495 227206**

*Profwch olygfeydd, synau ac arogleuon tref a chastell sy'n paratoi ar gyfer y Nadolig gyda reidiau traddodiadol ffair hwyl, arogleuon o win poeth sbeislyd, theatr stryd hudol a thros 100 o stondinau bwyd, crefft a rhoddion.*

*Experience the sights, sounds and smells of a town and castle preparing for Christmas with traditional funfair rides, smells of mulled wine, captivating street theatre and over 100 food, craft and gift stalls.*

02920 880 011

## Llawr Sglefrio
## Ice Rink

*Canol Tref Bargod • Bargoed Town Cen*

**12/12 - 16/12/2018 10AM-7PM**



*Bydd Llawr Sglefrio Iâ Bargod hynod boblogaidd yn dychwelyd y Nadolig hwn am gyfnod o bum diwrnod o ddydd Mercher 12fed i ddydd Sul 16eg Rhagfyr ym maes parcio dan do Morrison's!*

*The hugely popular Bargoed Ice Rink will return this festive period from Wednesday 12th to Sunday 16th December at Morrison's undercover car park!*

02920 880 011

## Gwneud Ceirw Llychlyn P
## Wooden Reindeer Maki

## 15/12/18 10 am - 10am
### Parc Cwm Darran

*Dewch i wneud Rudolph, Pranciwr neu Dawn 3 troedfedd o daldra eich hun. Gallwch hefyd a carw Llychlyn pren os nad ydych eisiau gwneua (yn dibynnu ar argaeledd). I archebu un, ffoniw 01443 875557. Cost yw £10 ar gyfer pob carw Llychlyn pren ac mae angen archebu ar gyfer y digwyddiad hwn. Ffoniwch i archebu.*

*Come along and make your own 3ft tall Rudo Prancer or Dancer. You can also order a wood reindeer if you don't fancy making one (subje availability). You can order one by phoning 0 875557. Charge £10 per wooden reindeer and booking required for this event. Call to book.*

**01495 227206**

**Cofrestrwch i dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau lleol drwy e-bostio**

**I gael gwybodaeth am sgyrsiau, clybiau llyfrau a sesiynau crefft sydd ar y gweill yn eich llyfrgell leol ewch i ww**

**www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau • www.caerph**

**Sign up to receive regular information about local events by e-mailing: even**

**For information about upcoming talks, book clubs and craft sessions at your local library visit www**

's ON

## Gŵyl Aeaf Siôn Corn
## Santa's Winter Wonderland
**Rhagfyr | December**

**8/9 ■ 15/16 ■ 22/23, 10am - 4pm**

**Fforest Cwmcarn Cwmcarn Forest**

*Ymunwch â ni yng Nghanolfan Ymwelwyr Coedwig Cwmcarn a cherddwch drwy'r dyffrynnoedd eira yng Ngŵyl Aeaf Siôn Corn! Cewch eich syfrdanu wrth weld goleuadau'r pentrefi'n amrantu, y rhaeadrau a'r anifeiliaid cudd …oll o gynhesrwydd y Ganolfan!*

*Join us at Cwmcarn Forest Visitor Centre and walk through the snow covered valleys in Santa's Winter Wonderland. Marvel at the twinkling lights of the villages, cascading waterfalls and hidden animals …all in the warmth of the Centre!*

**01495 227206**

**CANOL TREF CAERFFILI**
**20/12/2018 - 6.30PM**
**CAERPHILLY TOWN CENTRE**

*Bydd yr orymdaith yn cychwyn yn man Parcio a Theithio Gorsaf Caerffili ac yna'n dod i lawr i dref Caerffili, gan oleuo Teras yr Orsaf, Heol Caerdydd a Stryd Sain Ffagan ar ei ffordd i'r man terfyn ar Heol y Cilgant. Bydd yr Orymdaith yn gorffen gydag arddangosfa tân gwyllt hardd dros Gastell Caerffili.*

*The parade will begin at the Caerphilly Railway Station Park and Ride and then make its descent down to Caerphilly town, lighting up Station Terrace, Cardiff Road and St Fagans Street on its way to the finale on Crescent Road. The Parade will finish with a beautiful fireworks display over Caerphilly Castle.*

**02920 880 011**

ren
ing

nsiwr
rchebu
l un
ch

lph,
len
ct to
1443
l

: digwyddiadau@caerffili.gov.uk
w.caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 864068

illy.gov.uk/events

nts@caerphilly.gov.uk
w.caerphilly.gov.uk or call 01443 864068

# Sgiliau Gwaith i Oedolion 2

# Cymwysterau AM DDIM

**Hyfforddiant a chefnogaeth Swyddi ar gyfer pobl sy'n gweithio**

■ Am fwy o wybodaeth ffoniwch **01495 237921**

# Working Skills for Adults 2

# FREE QUALIFICATIONS

**Training & employment support for working people**

■ For further information please ring **01495 237921**

'Gweithio mewn partneriaeth â Chymunedau a'r Ganolfan Byd Gwaith'
Crymlyn, Stryd Fawr, Crymlyn, NP11 4QD ■ Crumlin Institute, Main Street, Crumlin, NP11 4QD
'Working in partnership with Communities and Job Centre Plus' Sefydliad

# Yn galw pob Gofalydd Calling all Carers

Mae Tîm Gofalyddion Caerffili'n darparu cymorth, cyngor a gwybodaeth i ofalyddion di-dâl/anffurfiol. Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae bron i 600 o ofalyddion newydd wedi ymuno â'r rhestr bostio ac yn awr yn derbyn y cylchlythyr chwarterol, Newyddion Caerffili, sydd â gwybodaeth ymarferol yn ogystal â manylion am weithgareddau a digwyddiadau y gall gofalyddion gael mynediad atynt.

**Os ydych yn ofalydd ac yn dymuno cael eich ychwanegu at y rhestr bostio, e-bostiwch ni ar gofalyddion@caerffili.gov.uk neu ffoniwch ni ar 01495 233218 / 233234.**

**www.caerffili.gov.uk/gofalyddion**

Caerphilly Carers Team provides support, advice and information to unpaid/informal carers. In the last 18 months, nearly 600 new carers have signed up to the mailing list and now receive the quarterly newsletter Carephilly News, which has practical information as well as details of activities and events that carers can access.

**If you are a carer and wish to be added to the mailing list, please e-mail us at carers@caerphilly.gov.uk or call us on 01495 233218 / 233234.**

**www.caerphilly.gov.uk/carers**

# **Her Cyllideb** Caerffili

**Mae'r tabl isod yn rhoi manylion y rhestr gynhwysfawr o gynigion DRAFFT ar gyfer arbedion y cytunwyd arnynt gan Gabinet y Cyngor.**

Cymerwch yr amser i ystyried y cynigion ar gyfer arbed arian a gadewch i ni gael eich adborth naill ai drwy ddychwelyd y ffurflen hon i unrhyw un o brif swyddfeydd y cyngor neu yn eich llyfrgell, canolfan hamdden, swyddfa arian, swyddfa dai neu ganolfan gwasanaethau cwsmeriaid agosaf.

***Os yw'n well gennych, gallwch hefyd ddychwelyd yr arolwg yn y post at:*** *Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Uned Polisi Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, CF82 7PG.*

***Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad yw'r 11eg Ionawr 2019.***



## Cynigion Drafft ar Gyfer Arbedion **2019/20**

**Mae'r tablau canlynol yn manylu ar y rhestr gynhwysfawr o gynigion arbedion y cytunwyd arnynt gan Gabinet y Cyngor.**

## ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

| Cynnig | Arbedion | Disgrifiad | Effaith ar y Cyhoedd |
|---|---|---|---|
| **Adlinio'r gyllideb a rheoli swyddi gwag heb unrhyw Effaith Gyhoeddus** | **£305mil** | Codi'n 3 oed (£50 mil); Lleihad o 2% yng nghyfraniad Gwasanaeth Cyflawni Addysg (£48 mil); Grant Gwella Addysg (£27 mil); Lleihad yng nghyfraniad ariannu cyfatebol Menter Cludiant 14-19 (£10 mil); Blynyddoedd Cynnar (Tîm Canolog) (£20 mil); Adeiladau Addysg Gymunedol (Gwasanaeth leuenctid), swyddi gwag ac ati (£100 mil); Addysg Gymunedol (Gwasanaeth i Oedolion) (£50 mil). | **DIM** |
| Effaith blwyddyn gyfan cau Ysgol Uwchradd Cwmcarn | **£221mil** | Caeodd Ysgol Uwchradd Cwmcarn ym mis Hydref 2018. £221 mil yw'r balans ar ôl cau. | **DIM** |
| Gostyngiad yn y gyllideb ar gyfer Rheoli Ysgolion yn Lleol i adlewyrchu'r gwariant gwirioneddol | **£40mil** | Lleihau cyllideb yn seiliedig ar wariant y blynyddoedd blaenorol. Cyllideb wrth gefn yw hon, gydag arian wrth gefn wedi'u neilltuo. Mae'n ariannu costau adeiladau ychwanegol mewn ysgolion gydag addasiadau i adeiladau. | **ISEL** |
| Addysg Awyr Agored - cymorth i ddisgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim (PYADd) sy'n mynychu'r cyrsiau (ariannu drwy grantiau yn lle hynny) | **£17mil** | Cael gwared ar y gyllideb lawn - sefydlwyd hyn sawl blwyddyn yn ôl i gynorthwyo disgyblion PYADd i gael mynediad at weithgareddau addysg awyr agored. Yn 2017-18 dim ond 8 ysgol (allan o 86) a gafodd y cyllid hwn ac mae gan bob un ond 1 Ganolfan Adnoddau Arbennig (CAA). O ganlyniad, ni fydd effaith ar draws pob ysgol yn yr awdurdod. Mae ysgolion eraill yn defnyddio arian y Grant Amddifadedd Disgyblion a lle bo'r effaith yn gysylltiedig â'r rhai sydd mewn perygl o gael eu gwahardd, bydd hyn yn cael ei nodi fel rhan o Adolygiad y CAA. | **ISEL** |
| Gostyngiad o gyfradd traean yng Nghyllideb y Cyfleustodau a'r Ffonau a ddefnyddir er mwyn Gweinyddu Prydau Ysgol | **£10mil** | Mae'r £10 mil yn ymwneud ag arbed ar linellau ffôn yn y rhan fwyaf o ysgolion ar gyfer arlwyo - gan eu bod bellach yn defnyddio ffonau symudol. | **DIM** |
| Targed Effeithlonrwydd o 5% i Gynllunio, Rheoli Strategaeth a Gwasanaethau Cymorth | **£29mil** | Cyfleoedd o ran creu incwm ychwanegol – yn enwedig o ran arian grant. | **DIM** |
| Gostyngiad yng Nghyllideb Mentrau Gwella Ysgolion | **£243mil** | Cynnig i ddileu'r arian a neilltuwyd i gefnogi ysgolion sy'n wynebu anawsterau o safbwynt gwella ysgolion. Mae'r sefyllfaoedd hyn fel arfer yn gysylltiedig â chanlyniadau arolygu ac yn fwy diweddar â chategoreiddio cenedlaethol. O ganlyniad i'r gostyngiad yn nifer yr ysgolion sydd mewn categorïau risg uwch, gellir cyflawni'r lleihad hwn ar hyn o bryd. Byddai angen cael dealltwriaeth pe bai angen cyllid "brys", mae'n bosibl y bydd modd cael cyllid o'r cronfeydd wrth gefn (yn amodol ar y gymeradwyaeth briodol i ddefnyddio balansau). | **CANOLIG** |
| Gwasanaeth Nam ar y Golwg - gostyngiad o 4.4% yn y cyfraniad | **£17mil** | Cynhelir y gwasanaeth gan CBS Torfaen. Bydd angen i'r Awdurdod fwrw ymlaen â'r Awdurdod Arweiniol. | **CANOLIG** |
| Gwasanaeth Lles Addysg - rheoli swyddi gwag | **£46mil** | Bydd yr arbedion mewn lle ar gyfer 2019/20. Mae'n dilyn ailfodelu'r Gwasanaeth o fis Medi 2018 – mae nifer y Swyddogion Lles Addysg o 11.24 sy'n gyfwerth ag amser llawn wedi'i ostwng i 8.45 o'r staff cyfwerth ag amser llawn ond gyda Swydd Weinyddol newydd i gefnogi'r Tîm. Swyddi eisoes yn wag. | **ISEL** |
| Gostyngiad yn y Gwasanaeth Cerddoriaeth | **£50mil** | Bydd angen gostyngiadau staffio - gobeithir y bydd y rhain yn drefniadau gwirfoddol o dan gynllun Gweithlu'r Cyngor. | **ISEL** |
| Llyfrgelloedd - Gostyngiad yn y Gronfa Llyfrau | **£85mil** | Y gyllideb adnoddau gyfredol yw £355 mil. | **CANOLIG** |
| Llyfrgelloedd | **£15mil** | Lleihad yng nghostau eiddo, staff a llyfrau. | **DIM** |
| Gwasanaeth Llyfrgelloedd | **£30mil** | £30 mil ychwanegol i'r £100m (£85 mil + £15 mil uchod) = £130 mil. | **DIM** |
| CMGG (Gwasanaeth leuenctid) – tynnu'r cyfraniad gan y gall y gwasanaeth gael ei ddarparu gan CBSC | **£25mil** | Tynnu'r cyfraniad i CMGG yn llwyr - sy'n ymwneud â Chydlynydd y Cynllun Gwyliau. Goblygiadau i CMGG gan fod y cyllid hwn yn ymwneud â swydd. Ni fydd unrhyw oblygiadau i'r cyhoedd gan y bydd y cyngor yn parhau i gael ei ddarparu drwy'r Gwasanaeth leuenctid. | **CANOLIG** |
| Adolygiad o'r model staffio mewn Llyfrgelloedd | **£50mil** | Y gobaith yw y byddai unrhyw ostyngiadau mewn staffio yn drefniadau gwirfoddol fel rhan o gynllun gweithlu'r Cyngor. | **ISEL** |
| Ysgolion - diffyg yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig | **£2,126mil** | Bydd yn ofynnol i ysgolion fantoli eu cyllidebau eu hunain a nodi arbedion ar gyfer y £2.1 miliwn. Mae 80% o gyllidebau ysgolion fel arfer yn gysylltiedig â staff, felly bydd gostyngiad yn nifer y staff mewn ysgolion. | **CANOLIG** |

## CYFANSWM YR ARBEDION AR GYFER ADDYSG A DYSGU GYDOL OES - £3,309mil

## CYMUNEDAU (Priffyrdd, Cynllunio, Rheoli Gwastraff, Hamdden, Diogelu'r Cyhoedd Ac Ati.)

| Cynnig | Arbedion | Disgrifiad | Effaith ar y Cyhoedd |
|---|---|---|---|
| **Adlinio'r gyllideb a rheoli swyddi gwag heb unrhyw Effaith Gyhoeddus** | **£790mil** | Cymorth a Chyllid Busnes (£25 mil); Cymorth a Chyllid Busnes (£10 mil); Digwyddiadau a Marchnata (£10 mil); Sefydliad y Glowyr Coed Duon (£20 mil); Adnewyddu Trefol (£4 mil); Yr Is-adran Gynllunio (£42 mil); Ailstrwythuro staffio mewn Adfywio a Chynllunio (£125 mil); Targed effeithlonrwydd o 2% ar gyfer cyllideb Datblygu'r Celfyddydau (£3 mil); Rheoli Swyddi Gwag (rhan o gynnig ailstrwythuro £ 200,000 yn ehangach o dîm y Priffyrdd (£34 mil); Ailstrwythuro staff yn Adran Isadeiledd (£166 mil); Iechyd yr Amgylchedd (£15 mil); Teledu Cylch Cyfyng - gostyngiad mewn costau rhenti llinell (£40 mil); Gostyngiad yn y gyllideb goramser Teledu Cylch Cyfyng (£8 mil); targed effeithlonrwydd o 5% ar gyfer cyllidebau'r Adran Iechyd (£12 mil); Chwaraeon a Hamdden - gostyngiad mewn cyllidebau tiwtoriaid chwaraeon a hamdden (£75 mil); gostyngiad yng nghyllideb Gwobrau Smart (£15 mil); gostyngiad yng nghyllideb Cyflenwadau gan gynnwys gwisgoedd unffurf a chardiau smart (£8 mil); gostyngiad yng nghyllideb Anturiaethau Caerffili (£12 mil); Rheoli Fflyd - peidio â defnyddio gwasanaethau diagnostig allanol a darparu'n fewnol (£10 mil); Glanhau Adeiladau (£31 mil) Parciau a Chefn Gwlad (£18 mil); Gostyngiad yng nghyllideb cynnal a chadw Mynwentydd (£25 mil); Gostyngiad yng nghyllideb cynnal a chadw Cofebion y Rhyfel (£15 mil); Gostyngiad yng nghyllideb Rhandiroedd (£3 mil); Ailstrwythuro Staff Rheoli Gwastraff (£34 mil); Gostyngiad yng nghyllidebau Parciau a Meysydd Chwarae (£30 mil). | **DIM** |
| Gostyngiad yn y Gronfa Adfywio Cymunedol | **£50mil** | Effaith ar Fudiadau Gwirfoddol. | **ISEL** |
| Canolfan Ymwelwyr Cwmcarn | **£10mil** | Cynnydd mewn incwm. | **DIM** |
| Adlinio cyllidebau staffio yn y Tŷ Weindio | **£67mil** | Lleihau oriau agor a'r staffio. | **ISEL** |
| Gostyngiad yng nghyllideb Canol Trefi | **£5mil** | Cynnal a chadw adferol yng nghanol trefi e.e. graffiti, atgyweirio celfi strydoedd ar raddfa fach. | **ISEL** |
| Lleihau Cyllidebau Digwyddiadau | **£47mil** | Gostyngiad mewn rhai digwyddiadau yng nghanol trefi. | **ISEL** |
| Cyflwyno taliadau ymadael gorsafoedd bysiau | **£100mil** | Effaith blwyddyn gyfan o beidio ag adnewyddu'r contract yn dod i ben ar 31/03/19. Ymgynghoriad yn mynd rhagddo. | **ISEL** |
| Gostyngiad o 32% o ran Ailosod Arwynebau Priffyrdd – Cyfraniad Refeniw i Gyfalaf (cyllideb cyfalaf = £750 mil) | **£53mil** | Dirywiad o ran ansawdd ffyrdd, mwy o risg o hawliadau yswiriant. | **CANOLIG** |
| Gostyngiad o 7% yn y gyllideb ar gyfer Triniaeth Arwynebau Priffyrdd | **£60mil** | Dirywiad o ran ansawdd ffyrdd, mwy o risg o hawliadau yswiriant. | **CANOLIG** |
| Gostyngiad o 4% yng Nghyllideb Cynnal a Chadw Adweithiol y Priffyrdd | **£55mil** | Mwy o effeithlonrwydd drwy ddefnyddio technoleg newydd (Jetpatcher). | **DIM** |
| Gostyngiad o 7% yng Nghyllideb Strwythurau'r Priffyrdd | **£36mil** | Dirywiad yn y seilwaith. | **ISEL** |
| Gostyngiad o 14% yng nghyllideb Cynnal a Chadw Rheoli Traffig | **£5mil** | Lleihad o ran gwaith cynnal a chadw ac effeithlonrwydd y gyllideb. | **ISEL** |
| Gostyngiad o 2% yng nghyllideb Cynnal a Chadw Goleuadau Stryd nad yw'n arferol | **£9mil** | Gostyngiad mewn gwaith cynnal a chadw o ganlyniad i dechnoleg LED newydd. | **DIM** |
| Gostyngiad o 8% yng Nghyllidebau eraill Cynnal a Chadw Priffyrdd | **£66mil** | Dirywiad yn y seilwaith. | **CANOLIG** |
| Gostyngiad mewn cyllidebau amrywiol eraill o ran Priffyrdd/Draenio Tir | **£21mil** | Mwy o berygl llifogydd. | **CANOLIG** |
| Gostyngiad yng nghyllideb Camlas Rhisga | **£10mil** | Gostyngiad mewn mân waith cynnal a chadw ond mae rhaglen buddsoddi Cyfalaf wedi'i chynllunio ar gyfer gwelliannau sylweddol i rannau o'r gamlas sy'n caniatáu'r gostyngiad hwn. | **ISEL** |
| Glanhau Gylïau | **£64mil** | Ystyried rhannu chwistrellydd gylïau gyda chyngor cyfagos i haneru'r costau (byddai felly ond ar gael i Gaerffili 50% o'r amser). | **DIM** |
| Dileu cyllideb y Tîm Ymateb Cymunedol | **£100mil** | Bydd mân waith cynnal a chadw fel atgyweirio meinciau, peintio rheiliau, tacluso trefi a phentrefi yn gyffredinol yn dod i ben. | **DIM** |
| Cludiant Cyhoeddus - adolygiad o gontractau gyda'r cymhorthdal uchaf fesul teithiwr | **£68mil** | Lleihau/terfynu rhai llwybrau bws. | **CANOLIG** |
| Incwm ychwanegol Gweithrediadau Priffyrdd | **£6mil** | Mwy o ganolbwyntio o ran mynd ar ôl ad-daliadau priffyrdd. | **DIM** |
| Hebryngwyr Croesfannau Ysgol Amser Cinio | **£36mil** | Cael gwared ar Hebryngwyr amser cinio. | **UCHEL** |
| Gostyngiad o 9% yn y gyllideb Cynnal a Chadw arferol ar gyfer Goleuadau Traffig | **£11mil** | Effeithlonrwydd a gyflawnir drwy drefniadau contract newydd. | **DIM** |
| Gostyngiad mewn Astudiaethau Damweiniau o ganlyniad i adolygu'r contract | **£10mil** | Gostyngiad yn y dadansoddiad o ystadegau damweiniau ac achosiaeth. | **DIM** |
| Cynnydd yn incwm ffioedd cau ffyrdd | **£30mil** | Codi tâl i gontractwyr am bob achos o gau ffordd heb gymorthdaliadau pellach. | **DIM** |
| Cludiant Teithwyr - cynnydd mewn incwm | **£3mil** | Cynnydd mewn amnewid cardiau pasys bws - newid yn y pris (tâl newydd o £10 am amnewid fesul cerdyn a gollwyd). | **ISEL** |
| Cynnydd mewn taliadau maes parcio | **£40mil** | Cynnydd cyntaf mewn 8 mlynedd a chodi tâl posibl ar ddydd Sul. Cynnydd arfaethedig o 20c i bob rhan o'r rhestr brisiau. | **ISEL** |
| Cyflwyno tâl am drwyddedau parcio preswyl | **£30mil** | Cyflwyno tâl blynyddol yn unol â pholisi. Cynigiwyd £15 fesul trwydded. | **ISEL** |
| Uned Cludiant Integredig | **£50mil** | Gwneud y defnydd gorau posibl o fflyd ac adnoddau mewnol a lleihau contractau allanol. | **DIM** |
| Darparu Gwasanaeth Pryd ar Glud i gleientiaid Adran 117 yn unig | **£141mil** | Rhoi'r gorau i wasanaeth pryd ar glud, ar wahân i gleientiaid sy'n gymwys o dan ôl-ofal Adran 117, dim ond 1 unigolyn sydd ar hyn o bryd. Arbediad blwyddyn rhannol er mwyn gweithredu. | **UCHEL** |
| Cynyddu pris prydau ysgol uwchradd gan 10c | **£50mil** | Pris yn cynyddu o £2.25 i £2.35. | **ISEL** |
| Cynyddu pris prydau ysgol gynradd gan 10c | **£54mil** | Pris yn cynyddu o £2.00 i £2.10. | **ISEL** |
| Cynyddu pris prydau staff gan 5% | **£3mil** | e.e. byddai bwydlen sy'n gosod bwyd cerfdy yn codi o £4.70 i £4.95; dewis arbennig dyddiol o £4.10 i £4.30 a brechdan o £2.45 i £2.60. | **ISEL** |
| Incwm arlwyo o Ysgolion Uwchradd | **£20mil** | Mwy o incwm arlwyo. | **DIM** |
| Rhoi'r gorau i Wasanaeth y Warden Diogelwch Cymunedol | **£355mil** | Dileu'r gwasanaeth. | **UCHEL** |
| Cynnydd yn y ffi ar gyfer adfer cŵn crwydr o'r ffald | **£3mil** | Cynnydd mewn prisiau i £75 o £44. | **ISEL** |
| Cyflwyno taliadau am driniaethau llygod mawr | **£20mil** | Tâl Newydd - £20 (ynghyd â TAW) fesul triniaeth sy'n gostwng i £10 (yn ogystal â TAW) i'r rhai sy'n cael budd-daliadau â phrawf modd. | **ISEL** |
| Cofrestryddion - cynnydd mewn ffioedd seremonïau | **£10mil** | Cynnydd mewn ffioedd sy'n amrywio o 7.5% i 20% yn dibynnu ar ddiwrnod yr wythnos a'r lleoliad. | **ISEL** |
| Safonau Masnach | **£40mil** | Dileu swydd Swyddog Masnachu Teg. | **ISEL** |
| Targed effeithlonrwydd o 5% ar gyfer cyllidebau Llygredd a chyllidebau Cynllunio Brys | **£26mil** | Dileu swydd Swyddog Iechyd yr Amgylchedd 0.5 cyfwerth ag amser llawn. | **CANOLIG** |
| Chwaraeon a Hamdden - newidiadau mewn TAW ar gyfer prisiau hamdden | **£50mil** | Efallai y bydd yn rhaid i rai clybiau dalu mwy am y gwasanaeth. | **ISEL** |
| Glanhau Adeiladau | **£15mil** | Cynnydd mewn incwm. | **DIM** |
| Canolfannau Cymunedol - tynnu cyllid yn ôl ar gyfer 2 ganolfan nad ydynt ym mherchnogaeth CBSC | **£13mil** | Mae'n lleihau'r cymhorthdal i berchnogaeth canolfannau defnyddwyr i ganolfannau cymunedol Glan-y-nant a Rhydri. | **ISEL** |
| Canolfannau Cymunedol - gostyngiad o 1 awr cymorth Gofalwr ar draws pob Canolfan | **£18mil** | Tâl ychwanegol oddi wrth bwyllgorau canolfannau cymunedol. | **ISEL** |

## CYMUNEDAU (Parhad)

| Cynnig | Arbedion | Disgrifiad | Effaith ar y Cyhoedd |
|---|---|---|---|
| Canolfannau cymunedol - lleihau'r holl gymorth Gofalwr ar draws yr holl Ganolfannau o fis Hydref | £79mil | Tâl ychwanegol oddi wrth bwyllgorau canolfannau cymunedol i ariannu cyflog y gofalwr. Rhan o'r flwyddyn o 1af Hydref 2019. | UCHEL |
| Canolfannau Cymunedol - cau 4 Canolfan | £23mil | Tirphil, Treffilip, Trem-y-Sianel a Rhymni Isaf* (*wedi cau'n barod). | CANOLIG |
| Rhaglen rhesymoli Lawntiau Bowlio | £10mil | Gwaredu ar y grantiau i glybiau bowlio'n raddol, fel y cytunwyd yn flaenorol gan y Cabinet. | DIM |
| Adolygiad o ddarpariaeth Gofalwyr Pafiliwn | £30mil | Gostyngiad yn oriau Gofalwyr Pafiliwn. | DIM |
| Parciau a Chefn Gwlad - lleihau'r gyllideb ar gyfer Asedau Cymunedol | £54mil | Peidio â gwneud mân waith cynnal a chadw ac uwchraddio i'r seilwaith; e.e. clwydi a rhwystrau ayyb. | ISEL |
| Parciau a Chefn Gwlad | £20mil | Lleihau'r gyllideb ar gyfer peiriannau. | ISEL |
| Gostyngiad yn y gyllideb cynnal a chadw ar gyfer ierdydd chwarae | £10mil | Llai o allu i amnewid offer chwarae. | ISEL |
| Parciau a Chefn Gwlad | £44mil | Ailstrwythuro staffio (lleihau'r nifer o staff Parciau'r Ardal). | ISEL |
| Tynnu un driniaeth o'r contract chwistrellu chwyn | £32mil | Gwasanaeth llai. | ISEL |
| Mannau Gwyrdd/Mynwentydd | £100mil | Ailstrwythuro staff. | ISEL |
| Mannau Gwyrdd/Mynwentydd | £40mil | Cynnydd yn incwm Mynwentydd. | DIM |
| Rheoli Gwastraff | £166mil | Lleihau'r staff glanhau | CANOLIG |
| Rheoli Gwastraff - cyflwyno tâl am gasglu gwastraff swmpus | £50mil | Tâl o £16 am 1 i 3 eitem (ar gyfer pob eitem heblaw gosodiadau a ffitiadau). | ISEL |
| Rheoli Gwastraff | £53mil | Rhesymoli'r gwasanaeth casglu gwastraff a gynigir i ffermydd ac eiddo anghysbell drwy ofyn am fwy o eiddo yn dod â'u gwastraff i ymyl y ffordd. | ISEL |
| Rheoli Gwastraff | £193mil | Gostyngiad mewn ysgubo mecanyddol. | CANOLIG |
| Rheoli Gwastraff - cau 2 Safle Amwynder Dinesig | £98mil | Safleoedd Amwynder Dinesig ym Mhenalltau ac Aberbargod. | CANOLIG |
| Rheoli Gwastraff | £50mil | Gostyngiad yn y gyllideb Ymgysylltu â'r Cyhoedd. | ISEL |
| Safleoedd Amwynder Dinesig i gau diwrnod ychwanegol | £38mil | Gwasanaeth llai (gan dybio bod 4 yn parhau ar agor). | CANOLIG |
| Rheoli Gwastraff | £5mil | Datblygu System Gwastraff Masnachol electronig. | DIM |
| Rheoli Gwastraff - cau pob un o'r 5 Cyfleuster Cyhoeddus | £74mil | Cau ym mhob tref (Twyn i aros ar agor gan fod hyn yn cael ei reoli o fewn y ganolfan ymwelwyr). | UCHEL |
| Rheoli Gwastraff | £34mil | Gostyngiad yn lefel y glanhau ar benwythnosau. | CANOLIG |
| Rheoli Gwastraff | £6mil | Lleihau nifer faniau'r Goruchwylwyr. | DIM |
| Tŷ Dyffryn - taliadau sefydlog ac incwm prydles | £394mil | Prydles newydd y cytunwyd arni gyda gweithredwyr trydydd parti. | DIM |
| Tŷ Menter - terfynu'r brydles | £67mil | Staff yn symud i Dredomen. | DIM |
| Gostyngiad yng nghyllideb Eiddo Corfforaethol y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd | £50mil | Llai o gyllideb i' r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd ar gael. | DIM |
| Arbed ynni o oleuadau LED yn Nhŷ Penallta | £20mil | | DIM |
| Lleihau glanhau adeiladau corfforaethol | £15mil | | DIM |

**CYFANSWM YR ARBEDION AR GYFER Y GYFADRAN CYMUNEDAU - £4,404mil**

## GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A THAI

| Cynnig | Arbedion | Disgrifiad | Effaith ar y Cyhoedd |
|---|---|---|---|
| **Adlinio'r gyllideb a rheoli swyddi gwag heb unrhyw Effaith Gyhoeddus** | £216mil | Ad-daliad Consortiwm Comisiynu ar gyfer Plant Cymru - comisiynu lleoliadau plant ar y cyd (£35 mil); Teuluoedd yn Gyntaf (£23 mil); Ailstrwythuro Gwasanaethau Cwsmeriaid (£20 mil); Incwm cleientiaid Gofal Cartref (£25 mil); Gofal Ychwanegol (£20 mil); Targed effeithlonrwydd o 5% ar gyfer Treuliau Swyddfa (£9 mil); Tai Preifat - ailstrwythuro staffio (£34 mil); Adolygu dosraniadau staff rhwng y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Refeniw Tai (£50 mil). | DIM |
| Adolygiad Gwasanaethau Plant o gefnogaeth weinyddol | £186mil | I'w gyflawni drwy ailstrwythuro cefn swyddfa. | ISEL |
| Adolygiad o gontract Barnardo's | £189mil | Gostyngiad posibl i'r Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd. | CANOLIG |
| Adolygiad o gyllidebau staffio yng Ngwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | £550mil | I'w gyflawni drwy ailstrwythuro cefn swyddfa. | ISEL |
| Adolygiad o'r polisi ar Godi Tâl Dibreswyl | £100mil | Cynnig newidiadau i'r polisi presennol ar gyfer codi tâl nad ydynt yn rhai preswyl er mwyn sicrhau tegwch i bob defnyddiwr gwasanaeth, gan gynnwys: elfen codi tâl am gymorth yn y cartref, codi tâl am gyfleoedd dydd mewn lleoliad cymunedol, a chodi tâl am gyfleoedd dydd a ddarperir gan y sector annibynnol a'r trydydd sector. | ISEL |
| Ail-dendro Contract Seibiant Gofal ar y Cyd a ddelir ar hyn o bryd gan yr elusen Gweithredu dros Blant | £50mil | Gellid cyflawni'r holl arbedion hyn drwy ailgynllunio gwasanaethau gan gynnwys cau canolfan ddydd Twyn Carn heb fawr o effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth. e.e. Gallai defnyddwyr gwasanaeth dderbyn gwasanaeth tebyg ond mewn lleoliad gwahanol. Hyrwyddo annibyniaeth i alluogi pobl i gyflawni eu canlyniadau eu hunain. | ISEL |
| Adolygiad o Wasanaethau Dydd er mwyn sicrhau gostyngiad yn y gyllideb o 6% | £300mil | | ISEL |
| Goblygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 | £150mil | | ISEL |
| Adolygu gofal dydd allanol | £205mil | | ISEL |
| Capio cynnydd chwyddiannol ar gontractau allanol | £3mil | Gellid gwneud mân ostyngiadau drwy effeithlonrwydd o fewn y sefydliad sy'n darparu. | DIM |
| Peidio ag adnewyddu contract Cymorth i Ofalwyr Iechyd Meddwl | £34mil | Effaith blwyddyn gyfan o beidio ag adnewyddu'r contract yn dod i ben ar 31/03/19. Ymgynghoriad yn mynd rhagddo. | ISEL |
| Creu incwm - Tŷ Hapus | £25mil | I'w chynnig i'w defnyddio gan awdurdodau lleol eraill a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. | DIM |
| Gorffen y cyfraniad i Raglen Welliant Gydweithredol De-ddwyrain Cymru (Cydweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol De Ddwyrain Cymru) | £15mil | Daethpwyd i gytundeb rhanbarthol i roi'r gorau i swyddogaeth cefn swyddfa heb unrhyw effaith ar y cyhoedd. | DIM |
| Diddymu Consortiwm TG De-ddwyrain Cymru | £22mil | Effaith blwyddyn gyfan terfynu trefniant rhanbarthol ar gyfer cymorth TG cefn swyddfa yn 2018/19. Darperir y cymorth hwn bellach drwy'r gwasanaeth System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru rhanbarthol. | DIM |
| Dileu cyllideb y Gronfa Atal Digartrefedd | £46mil | I'w hariannu drwy dwf yn y Grant Cynnal Refeniw. | DIM |
| Lleihad i'r grant i Llamau | £3mil | Llai o wasanaeth eisoes yn cael ei ddarparu. | DIM |

**CYFANSWM YR ARBEDION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A THAI - £2,094k**

## GWASANAETHAU CORFFORAETHOL
(Cyllid, Caffael a Gwasanaethau Cwsmeriaid, TG, Eiddo, Adnoddau Dynol a Chyfathrebu, ac Iechyd a Diogelwch)

| Cynnig | Arbedion | Disgrifiad | Effaith ar y Cyhoedd |
|---|---|---|---|
| **Adlinio'r gyllideb a rheoli swyddi gwag heb unrhyw Effaith Gyhoeddus** | **£731mil** | Cyllid yr Amgylchedd - swydd wag (£24 mil); Cyllid yr Amgylchedd - ailstrwythuro (£33 mil); Dileu cyllideb gynt y Cytundeb Canlyniadau (£40 mil); Tîm Cydraddoldeb - lleihau cyllidebau cyhoeddusrwydd a hyrwyddo (£4 mil); Gostyngiad mewn cyllideb Cyfieithu Cymraeg (£10 mil); Polisi Corfforaethol - Adolygiad Gwasanaeth (£67 mil); Technoleg Gwybodaeth (£150 mil); Gostyngiad mewn taliadau Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA) (£132 mil); Lleihad mewn costau teleffoni a rhenti llinell (£ 35 mil); Ailstrwythuro staffio yn y Gwasanaethau Canolog (£33 mil); Adnoddau Dynol - ailstrwythuro (£120 mil); Iechyd a Diogelwch - ailstrwythuro (£83 mil). | **DIM** |
| Budd-daliadau Tai - swydd wag | **£27mil** | Gallai wella perfformiad pe bai'r swydd yn cael ei llenwi. | **ISEL** |
| Budd-daliadau Tai - Ariannu Beichiau Newydd | **£42mil** | Gallai wella perfformiad pe bai'r swydd yn cael ei llenwi. | **ISEL** |
| Incwm ychwanegol grantiau a ffioedd a thaliadau | **£67mil** | Incwm. | **DIM** |
| Gwasanaethau Cwsmeriaid - ailstrwythuro rheolwyr/arweinwyr timau | **£108mil** | Gwasanaeth rheng flaen ond dim effaith ar y gwasanaethau a ddarperir oherwydd arferion gweithio diwygiedig. | **ISEL** |
| Gwasanaethau Cwsmeriaid - ymddeoliad posibl | **£26mil** | Gwasanaeth rheng flaen ond dim effaith ar y gwasanaethau a ddarperir oherwydd arferion gweithio diwygiedig. | **ISEL** |
| Gostyngiad yn y Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG) yn y sector gwirfoddol | **£42mil** | Yn effeithio'n uniongyrchol ar daliadau CLG y sector gwirfoddol. | **CANOLIG** |
| Gostyngiad yn y Gyllideb Cymorth Technegol | **£5mil** | Gostyngiad yn y gyllideb a ddefnyddir i ddarparu cyngor a chanllawiau technegol i'r sector gwirfoddol i'w galluogi i fanteisio ar raglenni grant allanol. | **ISEL** |
| Gostyngiad yn y gyllideb Lles | **£10mil** | Gostyngiad yn y gyllideb a ddefnyddir i gefnogi gweithgareddau lles. | **ISEL** |
| Rhoi'r gorau i ddefnyddio Ffynnon | **£12mil** | Ffyrdd newydd o weithio. | **DIM** |
| Ystafell Bost | **£4mil** | Gostwng i un fan. | **DIM** |
| Dosbarthu'r agenda | **£5mil** | Peidio â chyflwyno papurau i Aelodau. | **DIM** |

**CYFANSWM YR ARBEDION AR GYFER GWASANAETHAU CORFFORAETHOL - £1,079mil**

## CYLLID AMRYWIOL

| Cynnig | Arbedion | Disgrifiad | Effaith ar y Cyhoedd |
|---|---|---|---|
| **Adlinio'r gyllideb a rheoli swyddi gwag heb unrhyw Effaith Gyhoeddus** | **£383mil** | Cyfraniadau pensiwn cyn Awdurdodau (£50k); Ffioedd Archwilio Allanol (£50k); Yr Iaith Gymraeg (£53k); Ardrethi Busnes (NNDR) ar eiddo gwag (£131k); Lwfansau Rhent, Gostyngiadau Gweddwon Rhyfel - adlinio cyllideb (£10k); Gostyngiad yng nghyllideb y Llinell Ofal (£20k); Gostyngiad yng nghyllideb y Cynllun Rheoli Carbon (£25k); Cyfraniadau YG Dosbarth 1A (Tusker) (£40k); Gostyngiad mewn cyllideb eitemau amrywiol (£4k). | **DIM** |
| Paneli Solar PV | **£15mil** | Incwm. | **DIM** |
| Cronfa Arian Gyfatebol Cymunedau | **£15mil** | Gallai effeithio ar ddau ddigwyddiad. Byddai angen cyllid gan gynghorau cymunedol/nawdd er mwyn parhau â'r digwyddiadau. | **ISEL** |

**CYFANSWM YR ARBEDION CYLLID AMRYWIOL - £413mil**

# Arbedion Unwaith Dros Dro **2019/20** YN UNIG

| Cynnig | Arbedion | Disgrifiad | Effaith ar y Cyhoedd |
|---|---|---|---|
| **ADDYSG A DYSGU GYDOL OES** | | | |
| Rheoli Ysgolion yn Lleol – Balansau Wrth Gefn - Gostyngiad o 23% | **£45mil** | Y gyllideb gyfredol yw £193 mil, bydd hyn yn gostwng i £153 mil cyn y gostyngiad arfaethedig hwn o £45 mil. Mae hyn yn gadael dim ond £108 mil i ddelio â materion fformiwlâu'r flwyddyn. O ganlyniad, bydd angen ystyried y defnydd o falansau wrth gefn Rheoli Ysgolion yn Lleol os bydd problem - yn amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol. | CANOLIG |
| **CYFANSWM YR ARBEDION Addysg a Dysgu Gydol Oes - £45mil** | | | |
| **CYMUNEDAU** | | | |
| Prosiectau Cymunedol Adfywio Cymunedol - Lleihad o 53% | **£35mil** | Effaith ar y gallu i ariannu prosiectau bach nad oes ganddynt gyllid penodol. | ISEL |
| Grantiau Busnes - Lleihad o 50% | **£25mil** | Llai o gyllid ar gyfer Busnesau. | ISEL |
| Cronfa Adfywio Cymunedol – Lleihad o 100% | **£50mil** | Effaith ar Sefydliadau Gwirfoddol. Dyma'r gyllideb sy'n weddill. | ISEL |
| Cynnal a Chadw yn y Gaeaf - Lleihad o 54% | **£500mil** | Ariannu amgen drwy gronfa wrth gefn cynnal a chadw'r gaeaf. | DIM |
| Hawliau tramwy cyhoeddus - Lleihad o 50% | **£31mil** | Dirywiad mewn Hawliau Tramwy Cyhoeddus. | ISEL |
| Cynnal a Chadw Tir – Lleihad o 50% | **£15mil** | Dirywiad mewn cynnal a chadw tir. | ISEL |
| Lleihad dros dro yn arwynebu'r priffyrdd | **£110mil** | Cyllid amgen a geisir gan Lywodraeth Cymru. | ISEL |
| Lleihad dros dro yn Nhriniaeth Arwynebau Priffyrdd | **£800mil** | Cyllid amgen a geisir gan Lywodraeth Cymru. | ISEL |
| Lleihad dros dro yng nghyllideb Cynhaliaeth Strwythurau | **£40mil** | Cyllid amgen a geisir gan Lywodraeth Cymru. | ISEL |
| Gostyngiad dros dro yng nghyllideb Cynhaliaeth Adweithiol Priffyrdd | **£43mil** | Cyllid amgen a geisir gan Lywodraeth Cymru. | ISEL |
| Gostyngiad dros dro yng nghyllideb Cynhaliaeth Camlas Rhisga | **£40mil** | Yn dibynnu ar brosiect cyfalaf. | ISEL |
| RCCO Cerbydau Gwastraff - Lleihad o 100% | **£390mil** | Risg argaeledd/dibynadwyedd cerbydau. | ISEL |
| **EIDDO CORFFORAETHOL** | | | |
| Cynnal a Chadw Eiddo - Lleihad o 20% | **£309mil** | Llai o gyllid ar gael ar gyfer gwaith dewisol. | ISEL |
| **CYFANSWM YR ARBEDION Cymunedau - £2,388mil** | | | |
| **GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A THAI** | | | |
| Lleihau'r ddarpariaeth Twf | **£300mil** | Byddai'n cwrdd â'r angen presennol ond nid yw'n caniatáu ar gyfer unrhyw gynnydd demograffig o fis Awst 2018 neu am unrhyw gynnydd mewn ffioedd sy'n fwy na chwyddiant. | UCHEL |
| **CYFANSWM YR ARBEDION Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai - £300mil** | | | |
| **GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A CHYLLID AMRYWIOL** | | | |
| Technoleg Gwybodaeth - Adnewyddu Cyfrifiaduron - Lleihau o 100% | **£129mil** | Capasiti adnewyddu cyfrifiaduron ac argraffyddion Cyllideb £132 mil. | DIM |
| Benthyca Gohiriedig – Gostyngiad o 4.4% | **£500mil** | Yn lleihau'r cyfle i'w ddefnyddio fel tanwariant unwaith ar gynlluniau cyfalaf. | ISEL |
| **CYFANSWM YR ARBEDION Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid Amrywiol - £629mil** | | | |
| **CYFANSWM CYNIGION 2019-20 DROS DRO AR GYFER ARBEDION - £3,362mil** | | | |

## Cyfanswm yr Arbedion i'r Awdurdod Cyfan £14.7M

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

## Treth y Cyngor

Cynyddu Treth y Cyngor **6.95%** ar gyfer **2019/20**.

# Trafodaeth Caerffili

Rhowch eich barn i ni ar y cynigion sicrhau arbedion a amlinellir.

Cyflwynwyd y rhestr o gynigion (ynghlwm / dolen) i'r Cabinet ar 14 Tachwedd 2018 i alluogi'r Cyngor i gyflawni'r arbedion angenrheidiol o £14.7miliwn ar gyfer 2019/20. Cymerwch amser i gwblhau'r cwestiynau isod er mwyn i ni ddefnyddio'ch barn i helpu llywio'n penderfyniadau cyllideb ni dros y blynyddoedd nesaf.

***Efallai yr hoffech nodi a ydych yn cytuno neu'n anghytuno'n gryf gydag unrhyw un o'r toriadau a restrir ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, gan roi rhesymau dros eich barn.***

## Er mwyn cyflawni'r arbedion sydd eu hangen, mae'r cynigion yn seiliedig ar gynnydd mewn treth y cyngor o 6.95% ar gyfer 2019/20.

**Dewiswch un o'r opsiynau canlynol i ddweud wrthym eich dewis am dreth y cyngor. ✔ Dewiswch UN yn unig.**

☐ **Rwy'n cefnogi'r cynnydd arfaethedig yn nhreth y cyngor. 6.95%** a fyddai'n golygu cynnydd o £1.41 yr wythnos am eiddo band D.

☐ **Rwy'n cefnogi llai o gynnydd yn Nhreth y Cyngor.** (Byddai pob gostyngiad o 1% o'r 6.95% arfaerthedig yn golygu dod o hyd i £496 mil pellach o arbedion).

☐ **Rwy'n cefnogi mwy o gynnydd yn Nhreth y Cyngor.** (Byddai pob cynnydd o 1% uwchben y 6.95% arfaethedig yn golygu gorfod dod o hyd i £496 mil llai o arbedion).

☐ **Nid wyf yn cefnogi cynnydd yn Nhreth y Cyngor.** A deallaf y byddai hyn yn golygu gorfod dod o hyd i arbedion er mwyn mantoli'r gyllideb.

Os ydych yn teimlo bydd toriadau cyllideb arfaethedig mewn maes penodol yn effeithio arnoch fel unigolyn (yn gadarnhaol neu'n negyddol) oherwydd unrhyw un o'r canlynol (eich tarddiad ethnig, rhyw, oed, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, cred neu ddiffyg cred, defnydd o'r iaith Gymraeg, Iaith Arwyddion Prydain neu ieithoedd eraill, cenedligrwydd neu gyfrifoldeb dros ddibynyddion) rhowch fanylion isod.

Gadewch i ni gael unrhyw syniadau sydd gennych am sut y gallwn gyfyngu ar effaith unrhyw un o'r cynigion hyn arnoch chi ac ar eich cymuned.

Gan edrych ymlaen at 2020 a thu hwnt, dywedwch wrthym os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer meysydd gwariant y gellid eu lleihau, eu dileu, neu y gellid codi tâl ar ddefnyddwyr ar eu cyfer.

**Lleihau gwariant ar:**

**Cael gwared ar wariant yn llwyr ar:**

**Codi tâl am:**

## Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni sampl cynrychioliadol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ateb y cwestiynau canlynol amdanoch chi eich hun.

### Yr wyf yn cwblhau'r arolwg hwn

☐ Fel un o drigolion y Fwrdeistref Sirol ☐ Yn cynrychioli sefydliad y trydydd sector ☐ Fel person busnes ☐ Fel aelod etholedig ☐ Arall, nodwch yma

### Fy nghôd post yw:

☐☐☐☐ ☐☐☐

### Rwyf yn (ticiwch un)

☐ Wryw ☐ Benyw ☐ Arall, nodwch yma

### Beth yw eich prif iaith? (ticiwch un)

☐ Saesneg ☐ Cymreig ☐ Arall (gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain)

### A oes gennych anabledd? (ticiwch un)

☐ Oes ☐ Nac oes

***Diolch am gwblhau'r arolwg hwn.*** *Dychwelwch y ffurflen hon i unrhyw un o brif swyddfeydd y cyngor neu eich Llyfrgell, Canolfan Hamdden, Swyddfa Arian, Swyddfa Tai neu Ganolfan Cwsmeriaid yn Gyntaf agosaf. Os yw'n well gennych, gallwch hefyd ddychwelyd yr arolwg yn y post at Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Uned Polisi Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG.*

## Rhifau Defnyddiol
## Useful Numbers

**PRIF SWITSFWRDD**
**MAIN SWITCHBOARD**
01443 815588

**Minicom** Minicom
01443 873626

**Rhif argyfwng ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor:**
**Emergency Number for Council Services:**
01443 875500
(Allan o Oriau yn unig • Out of hours only)

**Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant**
**Children's Social Services**
0808 100 1727

**Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion**
**Adults' Social Services**
0808 100 2500

**BalchderStryd StreetPride**
01443 866566

**Cyngor i Ddefnyddwyr**
**Consumer Advice**
03454 040506

**Ymholiadau Treth y Cyngor**
**Council Tax Enquiries**
01443 863002

**Ailgylchu Dodrefn**
**Furniture Recycling**
01685 846830

**Bathodyn Glas Blue Badge**
01443 866571

**Budd-daliadau Tai /Treth y Cyngor**
**Housing & Council Tax Benefits**
Ceisiadau Newydd New Claims:
01443 866567
Hawlwyr Presennol Existing Claimants:
01443 864099

*Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg.*
*We welcome calls in Welsh.*

# Digwyddiadau / What's ON

### 7/12/18 - 30/12/18
**Sefydliad y Glowyr Coed Duon**
**Blackwood Miners' Institute**

***Owen Money*** *yw seren y pantomeim llawn hwyl eleni gyda chast cyfan o actorion, cantorion a dawnswyr talentog. Paratowch eich hun am daith hwyliog, llawn caneuon, llawn-jôcs, llawn chwerthin trwy hud ac anhrefn gwlad y panto! Am fanylion, rhestr o berfformiadau, prisiau tocynnau ac archebion, ewch i wefan Sefydliad y Glowyr neu ffoniwch.*

*This year's fun-packed pantomime stars* ***Owen Money*** *and a whole cast of talented actors, singers and dancers. Prepare yourself for a fun-packed, joke-crammed, song-filled, fast-moving, laugh-a-minute ride through the magic and mayhem of panto land! For details, schedule of performances, ticket prices and bookings, please visit the BMI website or phone.*

01495 227 206

## Chwiliwch am Siôn Corn
## Search for Santa

### 5 - 6/12/2018 - 6pm
**Parc Gwledig Cwm Sirhywi**
**Sirhowy Valley Country Park**

*Byddwch angen batris newydd ar gyfer eich tortsh ar gyfer y daith gerdded yn ystod y nos gyffrous hon trwy'r goedwig wrth i ni chwilio am gliwiau yn ein chwiliad am Siôn Corn. Yn addas ar gyfer 5 oed a hŷn. Mae angen archebu lle ar gyfer y digwyddiad.*

*You'll need new batteries for your torch for this exciting night-time wander through woods as we look for clues in our search for Santa. Suitable for ages 5 and above. Booking required for this event.*

01495 227206

## Gwneud Dynion Eira Pren
## Wooden Snowman Making

### 8/12/2018 10am - 2pm
**Parc Cwm Darran**

*Pwy ddywedodd fod angen eira arnoch i adeiladu dyn eira? Beth am fynd ati i wneud dyn eira pren gyda'r Gwarchodwyr ym Mharc Cwm Darran? Gallwch hefyd archebu dyn eira pren o'r Parc a'i gasglu, os nad ydych yn dymuno gwneud un. I archebu un, ffoniwch 01443 875557. Cost: £5 y dyn eira pren ac mae angen archebu ar gyfer y digwyddiad hwn.*

*Who said you need snow to build a snowman? Why not have a go at making a wooden snowman with the Rangers at Parc Cwm Darran? You can also order a wooden snowman from the Parc and collect it, if you don't fancy making one. You can order one by phoning 01443 875557. Charge: £5 per wooden snowman and booking required for this event.*

01495 227206

*Profwch olygfeydd, synau ac arogleuon tref a chastell sy'n paratoi ar gyfer y Nadolig gyda reidiau traddodiadol ffair hwyl, arogleuon o win poeth sbeislyd, theatr stryd hudol a thros 100 o stondinau bwyd, crefft a rhoddion.*

*Experience the sights, sounds and smells of a town and castle preparing for Christmas with traditional funfair rides, smells of mulled wine, captivating street theatre and over 100 food, craft and gift stalls.*

02920 880 011

## Llawr Sglefrio Iâ
## Ice Rink

Canol Tref Bargod • Bargoed Town Centre

**12/12 - 16/12/2018 10AM-7PM**

*Bydd Llawr Sglefrio Iâ Bargod hynod boblogaidd yn dychwelyd y Nadolig hwn am gyfnod o bum diwrnod o ddydd Mercher 12fed i ddydd Sul 16eg Rhagfyr ym maes parcio dan do Morrison's!*

*The hugely popular Bargoed Ice Rink will return this festive period from Wednesday 12th to Sunday 16th December at Morrison's undercover car park!*

02920 880 011

## Gwneud Ceirw Llychlyn Pren
## Wooden Reindeer Making

### 15/12/18 10 am - 10am
**Parc Cwm Darran**

*Dewch i wneud Rudolph, Pranciwr neu Dawnsiwr 3 troedfedd o daldra eich hun. Gallwch hefyd archebu carw Llychlyn pren os nad ydych eisiau gwneud un (yn dibynnu ar argaeledd). I archebu un, ffoniwch 01443 875557. Cost yw £10 ar gyfer pob carw Llychlyn pren ac mae angen archebu ar gyfer y digwyddiad hwn. Ffoniwch i archebu.*

*Come along and make your own 3ft tall Rudolph, Prancer or Dancer. You can also order a wooden reindeer if you don't fancy making one (subject to availability). You can order one by phoning 01443 875557. Charge £10 per wooden reindeer and booking required for this event. Call to book.*

01495 227206

## Gŵyl Aeaf Siôn Corn
## Santa's Winter Wonderland

**Rhagfyr | December**
**8/9 ■ 15/16 ■ 22/23, 10am - 4pm**
**Fforest Cwmcarn Cwmcarn Forest**

*Ymunwch â ni yng Nghanolfan Ymwelwyr Coedwig Cwmcarn a cherddwch drwy'r dyffrynnoedd eira yng Ngŵyl Aeaf Siôn Corn! Cewch eich syfrdanu wrth weld goleuadau'r pentrefi'n amrantu, y rhaeadrau a'r anifeiliaid cudd …oll o gynhesrwydd y Ganolfan!*

*Join us at Cwmcarn Forest Visitor Centre and walk through the snow covered valleys in Santa's Winter Wonderland. Marvel at the twinkling lights of the villages, cascading waterfalls and hidden animals …all in the warmth of the Centre!*

01495 227206

CANOL TREF CAERFFILI
20/12/2018 - 6.30PM
CAERPHILLY TOWN CENTRE

*Bydd yr orymdaith yn cychwyn yn man Parcio a Theithio Gorsaf Caerffili ac yna'n dod i lawr i dref Caerffili, gan oleuo Teras yr Orsaf, Heol Caerdydd a Stryd Sain Ffagan ar ei ffordd i'r man terfyn ar Heol y Cilgant. Bydd yr Orymdaith yn gorffen gydag arddangosfa tân gwyllt hardd dros Gastell Caerffili.*

*The parade will begin at the Caerphilly Railway Station Park and Ride and then make its descent down to Caerphilly town, lighting up Station Terrace, Cardiff Road and St Fagans Street on its way to the finale on Crescent Road. The Parade will finish with a beautiful fireworks display over Caerphilly Castle.*

02920 880 011

**Cofrestrwch i dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau lleol drwy e-bostio: digwyddiadau@caerffili.gov.uk**

**I gael gwybodaeth am sgyrsiau, clybiau llyfrau a sesiynau crefft sydd ar y gweill yn eich llyfrgell leol ewch i www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 864068**

**www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau ● www.caerphilly.gov.uk/events**

**Sign up to receive regular information about local events by e-mailing: events@caerphilly.gov.uk**

**For information about upcoming talks, book clubs and craft sessions at your local library visit www.caerphilly.gov.uk or call 01443 864068**

## Sgiliau Gwaith i Oedolion 2
## Cymwysterau AM DDIM

Hyfforddiant a chefnogaeth Swyddi ar gyfer pobl sy'n gweithio
■ Am fwy o wybodaeth ffoniwch 01495 237921

## Working Skills for Adults 2
## FREE QUALIFICATIONS

Training & employment support for working people
■ For further information please ring 01495 237921

'Gweithio mewn partneriaeth â Chymunedau a'r Ganolfan Byd Gwaith'
Crymlyn, Stryd Fawr, Crymlyn, NP11 4QD ■ Crumlin Institute, Main Street, Crumlin, NP11 4QD
'Working in partnership with Communities and Job Centre Plus' Sefydliad

## Yn galw pob Gofalydd Calling all Carers

Mae Tîm Gofalyddion Caerffili'n darparu cymorth, cyngor a gwybodaeth i ofalyddion di-dâl/anffurfiol. Yn ystod y 18 mis diwethaf, mae bron i 600 o ofalyddion newydd wedi ymuno â'r rhestr bostio ac yn awr yn derbyn y cylchlythyr chwarterol, Newyddion Caerffili, sydd â gwybodaeth ymarferol yn ogystal â manylion am weithgareddau a digwyddiadau y gall gofalyddion gael mynediad atynt.

**Os ydych yn ofalydd ac yn dymuno cael eich ychwanegu at y rhestr bostio, e-bostiwch ni ar gofalyddion@caerffili.gov.uk neu ffoniwch ni ar 01495 233218 / 233234.**
**www.caerffili.gov.uk/gofalyddion**

Caerphilly Carers Team provides support, advice and information to unpaid/informal carers. In the last 18 months, nearly 600 new carers have signed up to the mailing list and now receive the quarterly newsletter Carephilly News, which has practical information as well as details of activities and events that carers can access.

**If you are a carer and wish to be added to the mailing list, please e-mail us at carers@caerphilly.gov.uk or call us on 01495 233218 / 233234.**
**www.caerphilly.gov.uk/carers**